

Pam mae plant hŷn mewn achosion gofal? Archwiliad ar sail thema mewn pedwar awdurdod lleol.

Awduron

Celia Parker a Jo Tunnard

Ymchwil mewn Ymarfer



Archwiliad ar sail thema yw hon yn ymwneud â 73 o blant (10–17 oed) o 49 o deuluoedd a fu'n destun achosion gofal a gychwynnwyd gan bedwar awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr yn 2019/20. Mae'n rhan o gyfres o ddarnau o waith sy'n ceisio helpu i ddatblygu dealltwriaeth well o'r rhesymau pam mae plant hŷn a phobl ifanc yn dod yn destun achosion gofal.

research in practice

Awduron

Celia Parker, Uwch Gydymaith, Ymchwil mewn Ymarfer.
Jo Tunnard, Uwch Gydymaith, Ymchwil mewn Ymarfer.

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r awduron ddiolch i'r staff yn yr awdurdodau lleol a gynhaliodd yr archwiliadau o gofnodion gofal cymdeithasol plant ar adeg pan oeddent dan bwysau mawr yn ystod y pandemig COVID-19. Ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl heb eu parodrwydd i fynd gam ymhellach unwaith yn rhagor.

Cyfeiriad argymelledig

Parker, C. a Tunnard, J. (2021). Pam mae plant hŷn mewn achosion gofal? Archwiliad ar sail thema mewn pedwar awdurdod lleol. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Ymwadiad

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi ariannu'r prosiect hwn, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid, o reidrwydd, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na'r Sefydliad.

Cynnwys

- 3 Crynodeb gweithredol
- 12 Cyflwyniad
- 14 Beth ydym ni'n ei wybod am y teuluoedd a'r plant dan sylw?
- 18 Cyn, yn ystod ac ar ôl achosion
- 41 Ymwneud gan wahanol asiantaethau partner
- 53 Myfyrdodau
- 61 Rhestr achosion
- 61 Rhestr cyfeiriadau
- 64 Atodiad A: Ffurflen archwilio
- 70 Atodiad B: Methodoleg
- 72 Atodiad C: Tablau data

Crynodeb a fersiwn Saesneg ar gael yn:
www.nuffieldfjo.org.uk

Talfyriadau

ADHD	anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd
CAMHS	gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed
EHCP	cynllun addysg, iechyd a gofal
FDAC	llys teulu cyffuriau ac alcohol
FGC	cynhadledd grŵp teulu
ICO	gorchymyn gofal interim
MACE	[grŵp, panel neu bartneriaeth] Amlasiantaethol Camfanteisio ar Blant
PTSS	syndrom straen wedi trawma
SGO	gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig

Rhagair

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn cyhoeddi cyfres o astudiaethau i archwilio pam mae mwy o bobl ifanc yn dod yn destun achosion gofal yng Nghymru a Lloegr a sut gellid eu cynorthwyo'n well.

Mae'n anodd darllen am brofiadau'r bobl ifanc yr adolygir eu hachosion yn yr adroddiad hwn heb ddifaru na ellid bod wedi gwneud mwy i atal amgylchiadau o'r fath.

Ar yr un pryd, mae'r enghreifftiau'n dangos pa fath o arferion sy'n gallu gwneud gwahaniaeth, yn ogystal â'r hyn y mae angen iddo newid: cymorth mwy effeithiol a chynharach i rieni a phlant, cydlynu'n well ar draws y systemau cyfiawnder teuluol ac ieuenctid, ac ailarchwilio beth mae 'gofal' yn ei gynnwys pan fydd angen i'r wladwriaeth ymyrryd i helpu pobl ifanc.

Mae'r enghreifftiau a roddir yn yr astudiaeth hon yn gyfeirbwynt pwysig ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol ynglŷn â sut gallwn fynd ati i ddarparu'n well ar gyfer pobl ifanc. Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r awduron a'r awdurdodau lleol dan sylw.

Lisa Harker

Cyfarwyddwr

Crynodeb gweithredol

Mae'r crynodeb hwn yn amlygu canfyddiadau allweddol archwiliad ar sail thema o 73 o blant hŷn (10-17 oed) o 49 o deuluoedd a fu'n destun achosion gofal a gychwynwyd gan bedwar awdurdod lleol â lefelau amddifadedd uchel yn Lloegr (gogledd, de a Llundain) a Chymru yn 2019/2020.

Archwiliodd cwestiynau'r archwiliad bryderon diogelu yn y teulu a'r tu allan i'r teulu a sbardunodd achosion, y cynlluniau a wnaed ar gyfer y plant, amgylchiadau'r plant hyd at ddwy flynedd ar ôl i'r achosion ddod i ben, a'r cyflawniadau a'r heriau i awdurdodau lleol a'u partneriaid diogelu lleol (gweler Atodiad A).

Llenwodd yr awdurdodau lleol eu ffurflenni archwilio ym mis Mawrth a mis Ebrill 2021. Adolygwyd a dadansoddwyd y canfyddiadau gyda phob awdurdod lleol ym mis Mai a mis Mehefin (gweler Atodiad B).

Rhododd y gwaith gyfle hefyd i ddysgu am ofynion polisi ac ymarfer lleol, a chasglu safbwyntiau ymarferwyr a rheolwyr profiadol ynglŷn â'r hyn oedd yn gweithio'n dda a beth arall y gellid ei wneud, neu beth y gellid ei wneud yn wahanol, i helpu plant a theuluoedd tebyg yn y dyfodol.

Canfyddiadau allweddol

Beth ydym ni'n ei wybod am y plant a'r teuluoedd dan sylw?

- Roedd y rhan fwyaf o'r 73 o blant yn ein hastudiaeth (68%) yn 11-13 oed. Dim ond un oedd yn 17 oed.
- At ei gilydd, roedd ychydig yn fwy o fechgyn yn ein hastudiaeth (38, 52%) na merched (35, 48%).
- At ei gilydd, roedd bron 80% o'r plant (58) mewn achosion gyda brodyr neu chwiorydd. Roedd gan ychydig yn llai na hanner frodyr neu chwiorydd hŷn yn yr achosion, ac roedd gan ychydig yn llai na chwarter frodyr neu chwiorydd iau yn yr achosion. Roedd gan naw o blant (12%) frodyr neu chwiorydd nad oeddent mewn achosion o gwbl, a dim ond chwech (8%) oedd yn unig blant.

- Yn Llundain a Chymru, roedd y plant a oedd yn rhan o'r archwiliad o dras Ddu neu ddeuol yn bennaf, neu'n dod o amrywiaeth ehangach o wahanol fathau o ethnigrwydd. Yn yr ardaloedd eraill (gogledd a de Lloegr), roedd y plant yn y carfannau'n Wyn yn bennaf.
- Roedd mwyafrif helaeth y teuluoedd (40 o'r 49, 82%) yn hysbys i'r awdurdodau lleol ar yr adeg y cychwynwyd yr achosion. Roedd y rhan fwyaf (32 o'r 49, 66%) wedi bod trwy amryw gamau cymorth a diogelu'r awdurdod lleol, ac mewn bron hanner y teuluoedd (31, 42%), roedd plant eisoes mewn gofal pan ddechreuodd yr achosion. O ran bron traean o deuluoedd (15, 30%), hwn oedd yr ail dro i'r plentyn neu'r plant fod mewn achos gofal. Roedd y bwlch rhwng yr achos cyntaf ac achosion ailadroddol yn amrywio'n fawr – o un i ddeuddeng mlynedd.

Mae hyn yn dangos pwysigrwydd edrych ar rywfaint o ddata o safbwynt y teulu, yn ogystal â safbwynt y plentyn unigol.

Beth ddaeth â'r plant i'r system cyfiawnder teuluol?

- Roedd yr holl blant wedi profi niwed emosiynol i ryw raddau, a hynny'n gyffredinol trwy effeithiau niweidiol rhesymau eraill dros gychwyn achos: esgeulustod (78% o deuluoedd), cam-drin domestig (49% o deuluoedd), niwed corfforol (43% o deuluoedd) a cham-drin rhywiol (10% o deuluoedd).
- O ran gallu'r rhieni i ddarparu gofal diogel, roedd mwy nag un ffactor yn tueddu i fod ar waith: camddefnyddio sylweddau a thrawma cronus oedd yn ymddangos yn fwyaf aml, gyda phob un yn bresennol ar gyfer bron hanner y teuluoedd (45% a 43%, yn ôl eu trefn). Roedd iechyd meddwl gwael rhieni yn ffactor ar gyfer mwy na thraean o deuluoedd (35%). Yn ogystal, roedd gan yr holl blant berthynas doredig gydag un rhiant neu'r ddau. Roedd hyn yn ymwneud â phrofiadau anodd a heb eu datrys yn y gorffennol neu'r presennol, a newidiadau i amgylchiadau'r teulu, a waethygyd yn aml gan y gwahanu a'r ansicrwydd a ysgogwyd gan yr achosion eu hunain.
- Roedd pryderon y tu allan i'r teulu'n bresennol ar gyfer chwarter o'r plant yn yr archwiliad (18 plentyn o 12 teulu, 25%).

*Dangosodd straeon y teuluoedd nad oedd y plant mewn achosion oherwydd **naill ai** niwed o fewn y teulu **neu** y tu allan i'r teulu. Yn hytrach, roeddent ar gontinwrm o bryderon diogelu y tu allan i'r teulu a oedd yn amrywio o rai isel i uchel iawn, ac roedd y pryderon allanol hyn yn ychwanegol at y rhesymau o fewn y teulu dros gychwyn achos.*

Pa gynlluniau a wnaed ar gyfer dyfodol y plant?

- Mewn ychydig dros hanner yr achosion, roedd y barnwr wedi caniatáu un estyniad neu fwy i'r gofyniad 26 wythnos ar gyfer cwblhau achos. Roedd y rhesymau'n amrywio ond yn cynnwys oedi hir wrth geisio dod o hyd i leoliadau addas ar gyfer plant ag anawsterau difrifol a chymhleth, yr amser a oedd yn ofynnol i asesu gwahanol anghenion plant mewn grwpiau brodyr a chworydd, a defnyddio ychydig wythnosau ychwanegol i brofi cynlluniau (fel dychwelyd adref neu symud o fewn rhwydwaith y teulu).
- Ar ddiwedd achosion, gwnaed gorchmynion gofal ar gyfer ychydig dros hanner y plant (38, 52%). Yn ogystal, disgwyliwyd i'r saith achos anorffenedig namyn un ddiweddu mewn gorchmyn gofal hefyd, o ystyried bod y plant mewn gofal (maeth) ar orchmynion gofal interim (ICOs). Roedd y rhai hynny â gorchmynion gofal yn byw mewn trefniadau maethu yn bennaf, gan gynnwys rhai a leolwyd gyda gofalwr sy'n berthynas neu ofalwr sy'n unigolyn cysylltiedig cymeradwy. Roedd y plant eraill mewn lleoliadau preswyl.
- Roedd ychydig yn llai na hanner yr holl blant (34) wedi dychwelyd i'w rhiant/ rhieni neu wedi aros yn eu rhwydwaith teulu ehangach. Roedd y penderfyniadau a wnaed gan y llys ar gyfer y plant hyn yn cynnwys gorchmynion goruchwyllo, gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig (SGOs), gorchmynion trefniadau plant, a threfniadau gofal maeth gan berthynas o dan orchmynion gofal.
- Cofnodwyd symudiadau mewn lleoliadau ar y ffurflenni archwilio hefyd. Roedd bron hanner y plant a oedd yn parhau mewn gofal ar ôl diwedd yr achosion wedi aros lle'r oeddent yn byw, ac felly nid oeddent wedi symud. Roedd mwyafrif helaeth y plant hyn yn rhai yr oedd eu lleoliad wedi dod yn drefniant gofal gan berthynas/gofal maeth tymor hir gyda gorchmynion gofal. Mae bron dwy ran o dair o'r plant hyn wedi cael dim mwy na dau leoliad yn ystod eu cyfnod mewn gofal. Y plant mewn trefniadau maethu gan berthynas sydd wedi profi'r newidiadau lleiaf mewn lleoliad.
- Roedd plant a gafodd fwy na phedwar lleoliad maeth ers bod mewn gofal yn debygol o symud i leoliad preswyl. Canfuom ddiffyg cyffredinol o ran lleoliadau addas i blant hyn, sy'n bryder mawr pan oedd ystyriaethau ynglŷn â diogelwch cyhoeddus neu les yn sbarduno penderfyniadau am amddifadu o ryddid. Roedd gweithredu mewn argyfwng yn faich ychwanegol o ran dod o hyd i leoliad addas.

- O ran rhai plant a dreuliodd amser mewn lleoliad diogel yn ystod neu ar ôl achosion (e.e. yn yr ystad ddiogel i bobl ifanc, cartrefi diogel i blant, neu leoliadau amgen a oedd yn eu hamddifadu o'u rhyddid o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys), gallai hynny roi cyfleoedd iddynt ymgysylltu ag ymyriadau a gwasanaethau addysg, ac arwain at newid cadarnhaol. Canfuom fod newid cadarnhaol yn fwy tebygol pan oedd amddifadu o ryddid yn cael ei wneud mewn ffordd gynlluniedig, fel rhan o strategaeth glir i'r plentyn, yn hytrach na gweithred frys gan nad oedd gwely ar gael mewn cartref diogel i blant.

Beth oedd cyfraniad cyfiawnder ieuencid, iechyd, addysg ac asiantaethau partner eraill?

- Canfuom enghreifftiau o becynnau gofal amlasiantaethol llawn dychymyg i gynorthwyo a diogelu rhai plant.
- Roedd tystiolaeth o gyfraniad gan gyfiawnder ieuencid ar gyfer 12 o'r 73 o blant (16%). Roedd hyn yn amrywio o fân droseddau, gydag ymatebion ymyrraeth gynnar wedi'u cyfeirio at risgiau penodol, i droseddau difrifol a olygodd y bu'n rhaid i blant hŷn dreulio amser yn yr ystad ddiogel i bobl ifanc. Efallai nad yw'r ffurflenni archwilio'n cynrychioli'r ymatebion ymyrraeth gynnar gan yr heddlu a/ neu wasanaethau cyfiawnder ieuencid yn ddigonol. Ychwanegwn y rhybudd hwn oherwydd daeth yn amlwg nad oedd ffordd rwydd i'r archwilwyr ddod o hyd i fwy na gwybodaeth sylfaenol iawn yng nghofnodion gwasanaethau'r plant am gyfraniad gwasanaethau cyfiawnder ieuencid.
- Canfuom lawer o enghreifftiau o'r ysgol fel ffactor cadarnhaol. Fe'i disgrifiwyd fel noddfa a ffynhonnell o barhad ar adegau o aflonyddwch a straen, gydag athrawon a oedd yn hybu hyder a chynnydd mewn plant a rhieni. Roeddem yn synnu nad oedd sôn am wasanaethau lles addysg, heblaw am un cyfeiriad at fam a erlynwyd oherwydd i'w phlant gollu'r ysgol.
- Roedd yn nodedig bod anghenion iechyd rhai plant (ar draws yr ystod oedran) wedi cael eu hamlygu dim ond ar ôl i achosion ddechrau a bod y plant mewn gofal. Digwyddodd hyn mewn achosion ar wahân yn ymwneud ag anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd (ADHD), awtistiaeth, anhwylder cysgu a thrawma cymhleth. Nododd yr archwilwyr fod rhai plant yn amharod neu'n anfodlon derbyn cynigion o gymorth gan y gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) ac eraill. At ei gilydd, fodd bynnag, roedd y rhai hynny a alluogwyd i gael cymorth wedi dechrau gwneud rhywfaint o gynnydd. Roedd rhai plant yn cael eu helpu i archwilio eu teimladau mewn ffyrdd creadigol, er enghraifft trwy gyfansoddi caneuon a chwaraeon.

Myfyrdodau

Mae'n rhaid gwneud mwy na chynnal y sefyllfa bresennol

Mae'n rhaid i ni greu ac achub ar gyfleoedd i helpu plant yn wahanol, trwy roi sylw'n gynharach i'r anawsterau sy'n wynebu'r rhai sydd agosaf atynt. Byddai hyn yn cynnwys pwyslais o'r newydd ar fynd i'r afael ag anghenion rhieni – cyn gynted â'u bod yn codi – o safbwynt y teulu a chyda mwy o ddealltwriaeth ar draws pob gwasanaeth o drawma cymhleth a'i effaith ar sut mae pobl yn ymateb pan fyddant yn teimlo dan fygythiad ac mewn trallod.

Mae angen gweithredu er mwyn:

- Rhoi sylw i anghenion rhieni yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig ac iechyd meddwl gwael, a mynd i'r afael â'r tlodi a'r anfantais sylfaenol cysylltiedig sy'n wynebu teuluoedd mewn bywyd pob dydd.
- Cynnig cymorth gwell pan fydd plant yn dychwelyd adref ar orchymyn goruchwyllo, o ystyried y nifer uchel o'r achosion hynny sy'n dod yn achosion ailadroddol.
- Gweithredu'n gynt yn hytrach na'n hwyrach. Un enghraifft yw bod yn barod i fynd ag achos i'r llys teulu pan fydd arwyddion clir bod pethau'n debygol iawn o barhau i waethygu. Un arall yw darparu rhaglen cymorth dwys gartref, i osgoi gwahanu teulu am gyfnod hir yn ddiangen.
- Cryfhau'r cymorth i blant agored i niwed ym Mlynnyddoedd 5 a 6, cyn iddynt symud i'r ysgol uwchradd.
- Ffurio cysylltiadau cynharach rhwng gwasanaethau plant a'r system cyfiawnder ieuencid.
- Darparu adolygiad llenyddiaeth cyfredol o'r materion penodol sy'n berthnasol i blant a theuluoedd mewn systemau a gwasanaethau cyfiawnder teuluol a chyfiawnder ieuencid sy'n gorgyffwrdd ond sydd ar wahân (ac weithiau wedi'u harwahanu).

Darparu noddfeydd

Mae'n rhaid i ni benderfynu pontio'r bwlch mawr mewn darpariaeth addas i blant hŷn ag anawsterau cymhleth y mae angen iddynt fod mewn gofal. Mae'r effaith niweidiol ar eu diogelwch a'u datblygiad, a rhwystredigaeth gysylltiedig ymarferwyr, rheolwyr ac, yn aml, eu teuluoedd wrth ddod o hyd i leoliadau a darpariaeth addas, wedi ein hwynebu ers rhy hir.

Mae angen gweithredu er mwyn:

- Sicrhau bod cartrefi lleol arbenigol, diogel, bach ar gael i awdurdodau lleol lle y gellir helpu pobl ifanc i ddelio â'u profiadau blaenorol a'u hysbrydoli i edrych ymlaen at y dyfodol.
- Adeiladu ar y diogelwch y mae'r ysgol yn ei roi i rai plant a rhieni.
- O ystyried bod absenoldeb o'r ysgol yn sbarduno ffactorau risg uwch, mae'n rhaid i ni gymryd camau pendant i herio polisi ac arferion ynglŷn â gwahardd o'r ysgol.
- Cydnabod a manteisio ar yr hyn y gall llety diogel ei ddarparu i rai plant – gan gynnwys, fel y mae'r archwiliad yn ei ddangos, helpu i wneud iawn am addysg a gollwyd, galluogi plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau a rhaglenni hunanddatblygiad, caniatáu i blant gael cymorth gwresog gan staff, a galluogi mynediad at gymorth therapiwtig ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Mae angen gwneud mwy o ymchwil i ddeall canlyniadau i blant mewn llety diogel, a pha fath o ofal sy'n fwyaf buddiol.

Cynnal y llinell fywyd

Mae un o ffactorau risg allweddol niwed y tu allan i'r teulu yn ymwneud â cholledion sy'n deillio o berthnasoedd gwan neu wael, gwahanu, profedigaeth a digwyddiadau neu amgylchiadau trawmatig eraill. Mae'n dilyn, felly, mai un o'r prif flaenoriaethau wrth gynorthwyo plant yw ymdrech ar y cyd i unioni a chynnal perthnasoedd sydd eisoes yn bodoli fel bod plant yn cadw cynifer o gysylltiadau â phosibl â phobl sy'n eu caru, ac fel eu bod yn cael y cymorth gorau posibl i adfer perthnasoedd ingol a thoredig â'u rhieni, eu brodyr a'u chwiorydd, a pherthnasau eraill. Yn ogystal, mae'n fuddiol os yw gweithwyr proffesiynol yn chwilfrydig ynglŷn â chysylltiadau coll plant ac yn archwilio'r hyn y gallent ei gynnig yn ddiwyd.

Mae angen gweithredu er mwyn:

- Dysgu o brofiadau a safbwyntiau plant a'r rhai sydd agosaf atynt sydd wedi aros yn hir – ac weithiau llawer rhy hir ym marn yr archwilwyr – am ryddhad o'r beichiau maen nhw wedi bod yn cael trafferth ymdopi â nhw. A dysgu hefyd am yr angen i gael eu tynnu'n ôl i'r fan sy'n gartref a'r bobl sy'n deulu, a'r profiad o hynny, a deall a delio â'r tensiynau, yr emosiynau, y risgiau a'r buddion sy'n gysylltiedig.
- Dysgu o'r hyn y mae'r archwiliad wedi'i amlygu am arferion llwyddiannus gan ddefnyddio cynadleddau grŵp teulu (FGCs) a chyfarfodydd teuluol eraill i wneud penderfyniadau, a'r gwerth ychwanegol a geir wrth i'r gwaith hwnnw gael ei arwain, ei sbarduno a'i gefnogi gan bolisiâu asiantaeth ac arweinyddiaeth gref sydd wedi ymrwmo i ddull sy'n cynnwys y teulu. Argymhellwn fod y model gwaith hwn yn parhau i gael ei hyrwyddo – a'i gefnogi – a bod arferion proffesiynol y tu mewn a'r tu allan i'r llys yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ystyried rhieni a phlant hŷn fel partneriaid gyda gweithwyr proffesiynol wrth amlygu a mynd i'r afael â'r problemau maen nhw'n eu hwynebu.



Stori Natasha: bywyd o drawma a'r gobaith o gymorth iawn yn 13 oed

Pan wahanodd rieni Natasha, fe arhosodd gyda'i mam. Yn yr ysgol gynradd, dywedodd Natasha ei bod wedi cael ei cham-drin yn rhywiol gan aelod gwrywaidd o'r teulu. Cafwyd ef yn ddieuog ar ôl treial troseddol. Roedd mam Natasha wastad yn dweud nad oedd hi'n credu honiadau ei merch, ac roedd gweithwyr proffesiynol yn amau tybed a oedd hi wedi dioddef camdriniaeth ei hun pan oedd yn blentyn. Gweithiodd gwasanaethau plant gyda'r teulu o dan gynllun amddiffyn plant, ond gwaethygodd bethau, a symudodd yr awdurdod lleol i gam cyn-achos. Yn dilyn cynhadledd grŵp teulu (FGC), symudodd Natasha i fyw gyda'i thad. Ymddangosai fel petai wedi sefydlogi a phontiodd yn ddiraffferth i'r ysgol uwchradd.

Ym Mlwyddyn 8 (12 oed), dechreuodd Natasha aros allan yn hwyr. Daethpwyd o hyd i ganabis yn ei meddiant, ac fe ddechreuodd ddefnyddio ei ffôn yn gyfrinachgar. Yn aml, roedd ganddi fwy o arian nag y gellid disgwyl gan berson ifanc. Dechreuodd golli'r ysgol yn fynych, ac arweiniodd ei hymddygiad gwael at waharddiad tymor byr ac yna parhaol. Symudodd yn ôl i fyw gyda'i mam, ond yna collodd ddau dymor ysgol ac nid oedd yn cyd-dynnu â'i chwiorydd. Rhoddodd y tŷ ar dân ac aeth allan o reolaeth y ddau riant. Mewn FGC arall, roedd aelodau eraill o'r teulu'n credu bod Natasha'n rhy anodd iddynt ofalu amdani, a chytunodd yr awdurdod lleol â'u casgliad.

Rhoddwyd Natasha mewn gofal o dan adran 20 [Deddf Plant 1989] gyda chytundeb y ddau riant, ond symudodd yn gyflym trwy saith lleoliad maeth, preswyl a lleoliadau eraill oherwydd ei hymddygiad, a oedd yn cynnwys ymosodiadau ar ofalwyr a phlant eraill a dechrau tanau. Aeth ar goll yn aml ac ymosodwyd arni'n gorfforol ac yn rhywiol yn ystod y cyfnodau hyn.

Gwnaeth yr awdurdod lleol gais llwyddiannus am orchymyn gofal ac, yn ystod yr achos, am orchymyn llety diogel, ond nid oedd lleoliad diogel ar gael. Fe'i daliwyd mewn lleoliad anghofrestredig, a chaniataodd yr Uchel Lys ei hamddifadu o'i rhyddid am wyth niwrnod oherwydd y perygl iddi hi ei hun ac eraill.

Roedd y gwasanaeth cyfiawnder ieuencid yn gysylltiedig, oherwydd euogfarnau am ymosod, ac felly hefyd CAMHS, oherwydd hunan-niwed a theimladau hunanladdol a arweiniodd at sawl ymweliad â'r ysbyty. Yn ei lleoliad preswyl therapiwtig presennol, mae'n cael ei thrin am syndrom straen wedi trawma (PTSS).

Mae arwyddion bod y cymorth presennol yn fuddiol i Natasha: ers y chwe mis diwethaf mae ei phresenoldeb wedi bod yn well yn ei darpariaeth addysgol bresennol ac mae'n cwblhau ei chymwysterau TGAU, gan ddisgwyl rhai graddau da. Mae hi'n mwynhau canu, cyfansoddi a'r celfyddydau perfformio yn arbennig, ac mae'r rhain wedi rhoi ffocws newydd iddi. Mae ei pherthynas â'u rhieni'n fregus o hyd ond mae rhywfaint o gysylltiad ysbeidiol dros y ffôn. Mae gan Natasha eiriolwr gofal ac mae'n dechrau ymwneud â'r grŵp plant mewn gofal lleol.



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau archwiliad ar sail thema o 73 o blant hŷn (10–17 oed) o 49 o deuluoedd a fu'n destun achosion gofal a gychwynwyd gan bedwar awdurdod lleol â lefelau amddifadedd uchel yn Lloegr (gogledd, de a Llundain) a Chymru yn 2019/2020. Mae'n rhan o gyfres o ddarnau o waith sy'n ceisio helpu i ddatblygu dealltwriaeth well o'r rhesymau pam mae plant hŷn a phobl ifanc yn dod yn destun achosion gofal. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data Cafcass cenedlaethol a Cafcass Cymru i feintio'r cynnydd yn nifer y plant hŷn a phobl ifanc a fu'n destun achosion gofal yn ystod y degawd diwethaf (Roe, Alrouh, a Cusworth 2021), ac adolygiad ffeiliau achos cysylltiedig o achosion a glywyd yn Llys Teulu Dwyrain Llundain (Roe, Ryan, a Rehill 2021).

Nod y gyfres hon yw archwilio'r hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn y mae angen iddo newid, a'r hyn a fydd yn galluogi'r newid hwnnw i fod yn weladwy yn y systemau a'r gwasanaethau i blant hŷn a'u teuluoedd.

Ystyriodd y gwaith ymchwil y cwestiynau canlynol trwy gyfres o gwestiynau archwilio (gweler Atodiad A):

- Beth ddaeth â'r plant hyn i'r system cyfiawnder teuluol, a beth oedd y pryderon diogelu, o fewn y teulu a'r tu allan i'r teulu?
- Pa gynlluniau a wnaed ar gyfer dyfodol y plant, a beth oedd cyfraniad cyfiawnder ieuencid, iechyd, addysg ac asiantaethau partner eraill?
- Sut mae anghenion y plant a'r teuluoedd yn cael eu bodloni, hyd at ddwy flynedd ar ôl i'r achosion ddechrau?
- Beth ellir ei ddysgu o gyflawniadau a heriau awdurdodau lleol a phartneriaid, ac o brofiadau'r plant a'u teuluoedd?

Llenwodd y pedwar awdurdod lleol eu ffurflenni archwilio ym mis Mawrth a mis Ebrill 2021. Adolygwyd a dadansoddwyd y canfyddiadau gyda phob awdurdod lleol ym mis Mai a mis Mehefin (gweler Atodiad B ar gyfer y fethodoleg).

1 Cytunodd yr awdurdodau lleol i'w canfyddiadau gael eu cyfuno'n adroddiad terfynol cyfanredol dienw. Cyfeiriwn atynt drwy gydol yr adroddiad fel awdurdod lleol A, B, C ac Ch.

Bylchau a chyfyngiadau data

Er ein bod wedi llwyddo i recriwtio amrywiaeth o awdurdodau lleol a charfan o faint boddhaol (73 o blant mewn 49 o deuluoedd), a bod y pynciau a'r canfyddiadau'n cyd-fynd â thystiolaeth arall, fel y dangosir yn ddiweddarach yn yr adroddiad, mae cyfyngiadau i'w cofio wrth ddehongli'r canlyniadau.

Yn gyntaf, roedd y wybodaeth a ddaliwyd gan yr awdurdodau lleol yn amrywio o ran ansawdd a manylion, gan arwain at amrywiadau o ran pa mor rhwydd y gallai'r archwilywyr lleol ddod o hyd i wybodaeth berthnasol am y plant neu ddata gweinyddol am y garfan yng nghyd-destun eu hachosion yn gyffredinol. Roedd amrywiadau hefyd yn nifer y plant ym mhob carfan awdurdod lleol ac yng nghyfran y grwpiau brodyr a chwiorydd o gymharu â phlant unigol o fewn ystod oedran yr archwiliad.

Yn ail, ymarfer ffeiliau oedd hwn yn bennaf (cofnodion gofal cymdeithasol electronig a gwblhawyd ac a ddaliwyd gan wasanaethau plant, a gwybodaeth ategol o gyfarfodydd cynllunio cyfreithiol awdurdodau lleol ac adolygiadau plant mewn gofal). Roedd rhywfaint o wybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys oherwydd bod archwilydd yn adnabod y plant a'r teuluoedd dan sylw neu wedi gwirio gyda chydweithwyr a oedd yn eu hadnabod. Mae'n dilyn na archwiliwyd i ba raddau yr oedd y plant, y rhieni neu ofalwyr eraill (ac asiantaethau eraill) yn cytuno â'r farn a drosglwyddwyd i'r ffurflenni archwilio ynglŷn â beth oedd wedi digwydd a pham, nac ynglŷn â'r hyn y gellid bod wedi'i wneud yn wahanol. Nid dyna oedd ein cylch gorchwyl, ond mae'n gadael bwloch mewn safbwyntiau – cyfyngiad a heriwyd gan eraill.²

Yn drydydd, gan fod yr archwiliad yn canolbwyntio ar blant 10–17 oed a fu'n destun achos gofal yn ystod y flwyddyn archwilio yn unig, mae'n eithrio tri grŵp arall o blant lleol o'r un oedran: y rhai hynny a oedd eisoes yng ngofal yr awdurdod lleol, y rhai hynny a oedd yn hysbys i wasanaethau plant fel plant mewn angen (o dan adran 17 Deddf Plant 1989), a'r holl blant eraill ym mhoblogaeth gyffredinol yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar ddarlun cyffredinol o'r gwaith y mae asiantaethau diogelu'n debygol o fod yn ei wneud i ymyrryd ac atal niwed i blant o'r tu mewn neu'r tu allan i'w teulu.

Yn bedwerydd, roedd yr archwiliad yn cynnwys tri awdurdod lleol yn Lloegr ac un yng Nghymru yn unig. Felly, mae'n bosibl na ellir cyffredinoli'r canfyddiadau i ardaloedd eraill.

2 Sylwch ar argymhelliad yr Adolygiad Argyfwng Gofal (Grŵp Hawliau'r Teulu 2018): 'Rhagdybir bod methodoleg astudiaethau ymchwil sy'n archwilio arferion gyda phlant a theuluoedd, a'u canlyniadau, yn cynnwys profiadau aelodau o'r teulu.'

Beth ydym ni'n ei wybod am y teuluoedd a'r plant dan sylw?

Llenwyd y ffurflen archwilio (gweler Atodiad A) ar gyfer y 73 o blant o 49 o deuluoedd a fodlonodd y meini prawf ar gyfer eu cynnwys (10–17 oed ar ddechrau achos yn 2019/20).³


Tabl 1: Nifer y plant a theuluoedd fesul awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Plant		Teuluoedd	
	Nifer	%	Nifer	%
A	13	18%	9	18%
B	27	37%	19	39%
C	19	26%	12	24%
D	14	19%	9	18%
Cyfanswm	73	100%	49	100%

Roedd mwyafrif y plant yn ein hastudiaeth (68%) yn 11–13 oed (gweler Ffigur 1). Roedd gan awdurdod lleol B fwy o blant yn yr ystod oedran 14–17, gan gynnwys chwe phlentyn 14 oed, yr oedd pedwar ohonynt yn rhan o ddau bâr o frodyr a chwiorydd. Roedd yr unig berson ifanc 17 oed yn un o ddwy chwaer yn awdurdod lleol C; aeth y ddwy chwaer i fyw gydag unigolyn â chysylltiad agos â'u teulu (gweler Tablau C.1 ac C.2, Atodiad C). Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol sy'n dangos bod mwyafrif y bobl ifanc mewn achosion gofal yn 10–13 oed (66.1%) (Roe, Alrouh, a Cusworth 2021).

3 Nid yw'r data'n cynnwys unrhyw gais a wnaed i ryddhau gorchymyn a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol yn unig.

Ffigur 1: Cyfran y plant yn ôl ystod oedran ac yn ôl awdurdod lleol




Canfuom fod cyfran y plant 10+ oed a fu'n destun achos yn 2019/20 yn amrywio'n fawr rhwng yr awdurdodau lleol – o 10.6% o'r holl blant mewn achosion gofal yn awdurdod lleol Ch i 52% yn awdurdod lleol A. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 27% (Roe, Alrouh a Cusworth 2021. Dangosodd y dadansoddiad eilaidd o ddata sydd ar gael ar gyfer awdurdod lleol B faint mae cyfran y plant hyn (10+ oed) wedi cynyddu – o 14% i 26% yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

Roedd bron 80% o'r plant (58) mewn achos gyda brodyr neu chwiorydd (gweler Ffigur 2). Roedd gan ychydig yn llai na hanner y plant hyn frodyr neu chwiorydd hyn mewn achosion, ac roedd gan ychydig yn llai na chwarter frodyr neu chwiorydd iau mewn achosion.


Roedd gan naw o blant (12%) frodyr neu chwiorydd nad oeddent mewn achosion o gwbl, a dim ond chwech (8%) oedd yn unig blant. Mae'r wybodaeth hon yn dangos pwysigrwydd edrych ar rywfaint o ddata o safbwynt y teulu yn ogystal ag o safbwynt y plentyn unigol.

Ffigur 2: Cyfran y plant a chanddynt frodyr neu chwiorydd yn yr achosion hyn yn ôl awdurdod lleol



Er bod ychydig yn fwy o fechgyn yn ein hastudiaeth (38) na merched (35), roedd y gymhareb yn amrywio yn ôl awdurdod lleol (gweler Ffigur 3).

Ffigur 3: Canran y bechgyn a merched yn yr achosion hyn yn ôl awdurdod lleol



Pam mae plant hyn mewn achosion gofal? Archwiliad ar sail thema mewn pedwar awdurdod lleol.

Roedd ethnigrwydd plant a theluoedd yn amrywio ar draws yr awdurdodau lleol.⁴ Yn Llundain a Chymru, roedd y plant yn y carfanau o dras Ddu neu ddeuol yn bennaf, neu'n dod o amrywiaeth ehangach o wahanol fathau o ethnigrwydd. Yn y grŵp arall (gogledd a de Lloegr), roedd y plant yn y carfanau'n Wyn yn bennaf (gweler Tabl C.3, Atodiad C, am ddadansoddiad ethnigrwydd cyffredinol fesul plentyn a theulu; nid yw data ethnigrwydd yn cael ei ddadansoddi yn ôl awdurdod lleol er mwyn osgoi adnabod unigolion).

Pam mae plant hŷn mewn achosion gofal? Archwiliad ar sail thema mewn pedwar awdurdod lleol.

- 4 Roedd dosbarthiadau grwpiau ethnig wedi'u seilio ar gategoreiddiadau Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), a ddefnyddiwyd gan yr awdurdodau lleol. Gwnaed mân addasiadau wrth adrodd ar y data er mwyn cynnal cyfrinachedd teluoedd ac awdurdodau lleol.

Cyn, yn ystod ac ar ôl achosion

Ymwneud blaenorol â gwasanaethau plant

Roedd y rhan fwyaf o'r teuluoedd (40 o'r 49, 82%) yn hysbys i'r awdurdodau lleol ar yr adeg y cychwynnwyd yr achos. Dim ond 9 teulu (18%) nad oeddent yn hysbys ar yr adeg y cychwynnwyd yr achos. Canfuwyd yn ddiweddarach bod un o'r naw teulu wedi cael cysylltiad sylweddol ag awdurdod lleol gwahanol, ac nid oedd dau deulu arall (â phlant y credwyd eu bod wedi cael eu masnachu) yn hysbys i unrhyw wasanaeth lleol cyn i'r plant ddod i sylw'r awdurdod lleol trwy amddiffyniad yr heddlu.

O'r teuluoedd a oedd yn hysbys i'r awdurdodau lleol, roedd 32 (80%) wedi bod trwy amryw gamau cymorth a diogelu'r awdurdod lleol: rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill, cymorth 'plentyn mewn angen' i'r teulu, cofrestriad ac ailgofrestriad 'amddiffyn plant'.

Roedd bron hanner y plant (31 o'r 73, 42%) eisoes mewn gofal ar yr adeg pan ddechreuodd yr achos (naill ai o dan adran 20 neu amddiffyniad yr heddlu).

Aeth un rhan o bump o'r teuluoedd (11 o'r 49, 22%) drwy broses cyn-achos cyn i'r awdurdod lleol gychwyn achos, ac o ran bron traean o'r teuluoedd (15 o'r 40, 30%) yr achosion hyn oedd yr eildro i'r plant fod mewn achos gofal.

I gael rhagor o fanylion a dadansoddiad yn ôl awdurdod lleol, gweler Tabl C.4, Atodiad C.

Ymwneud rhyngwladol

Roedd saith achos (10 o blant, 14% o'r cyfanswm), o ddau o'r awdurdodau lleol, yn cynnwys elfen o waith rhyngwladol ac ymholiadau ynglŷn â lleoliad rhieni a/neu berthnasau eraill – naill ai i ddod o hyd i bobl neu ganfod gofalwyr posibl ar gyfer plentyn. Y gwledydd dan sylw oedd Gambia, yr Aifft, Sierra Leone, Sbaen, Nigeria, Gwlad Pwyl a'r Unol Daleithiau. Nid oes unrhyw ran o'r gwaith wedi arwain at ddod o hyd i bobl sydd ar goll neu wneud lleoliad gyda theulu, er bod gobaith o hyn o hyd ar gyfer dau o'r plant.

Roedd amheumon cryf bod dau o'r plant, o deuluoedd gwahanol, wedi cael eu masnachu o Affrica i gamfanteisio arnynt, yn ôl pob tebyg – un o bosibl ar gyfer caethwasiaeth ddomestig neu briodas dan orfod (gweler stori Hannah).

Pam mae plant hŷn mewn achosion gofal? Archwiliad ar sail thema mewn pedwar awdurdod lleol.



Straeon Hannah ac Omar: achosion posibl o fasnachu mewn pobl

Roedd Hannah yn 14 oed pan ddaeth i ofal trwy amddiffyniad yr heddlu. Roedd wedi ffoi rhag amgylchiadau caethwasiaeth ddomestig ac yn ofni anffurfio organau cenhedlu benywod. Dywedodd y daethpwyd â hi i'r Deyrnas Unedig ar ôl marwolaeth ei rhieni. Gwnaed ymholiadau yn ei gwlad enedigol, ond ni ellid dod o hyd i unrhyw berthnasau. Fe'i rhoddwyd mewn gofal maeth lle mae hi bellach yn ffynnu ac yn rhagori yn yr ysgol. Mae Hannah eisiau bod yn feddyg.

Roedd Omar yn 13 oed pan ddaeth i ofal trwy amddiffyniad yr heddlu. Daethpwyd ag ef i'r Deyrnas Unedig trwy Ewrop

gan ddyn a oedd yn perthyn iddo, o bosibl, ond mae'n debyg heb ganiatâd neu wybodaeth ei fam a oedd yn dal i fod yn eu gwlad nhw. Symudwyd Omar o amgylch y Deyrnas Unedig, a chafodd ei gloi mewn eiddo a'i adael ar ei ben ei hun. Nid oedd wedi'i gofrestru yn yr ysgol na chyda meddyg teulu. Gwnaed ymdrech i ddod o hyd i'w fam, ond heb lwyddiant hyd yma. Roedd Omar yn dioddef anawsterau difrifol a thrawma, ac yn cael trafferth yn yr ysgol, ac mewn gofal maeth a lleoliadau preswyl. O ganlyniad i'r anawsterau hyn, cafodd ei anfon i uned seiciatrig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Ar ôl cael ei ryddhau o'r uned seiciatrig, awdurdododd yr Uchel Lys ei amddifadu o'i ryddid.

Mae wedi bod yn gwella'n raddol ac wedi cael ei symud i leoliad wedi'i deilwra, gyda thîm gofal sy'n rhoi sylw blaenoriaethol i'w anghenion ieithyddol, diwylliannol ac ysbrydol. Mae'r dull hwn, ynghyd â dull adferol o ymdrin â'i ymddygiad troseddol, yn golygu nad oes cyfyngiadau ar ei ryddid mwyach. Mae'n mynd i'r ysgol, yn mwynhau chwaraeon, ac yn ymwneud â'i grŵp ffydd yn y gymuned.

Pam mae plant hŷn mewn achosion gofal? Archwiliad ar sail thema mewn pedwar awdurdod lleol.

Ymwneud blaenorol â'r llys: plant mewn achosion ailadroddol

Roedd y pedwar archwiliad awdurdod lleol yn cynnwys plant a oedd mewn achosion am yr eildro.

Roedd 19 o blant (26% o'r cyfanswm) o 15 o deuluoedd (31% o'r cyfanswm) mewn achosion am yr eildro. Roedd y bwlch rhwng yr achos cyntaf a'r ail achos yn amrywio'n fawr rhwng yr awdurdodau lleol – o fwlch o flwyddyn ar gyfer y ddau achos yn awdurdod lleol Ch i fwlch o 11 a 12 mlynedd ar gyfer y ddau achos yn awdurdod lleol A. Y bwlch rhwng yr achos cyntaf ac achosion ailadroddol yn awdurdod lleol C oedd dwy i bedair blynedd, a dwy i naw mlynedd yn awdurdod lleol B.


Roedd mwyafrif yr achosion ailadroddol (11 o'r 19, 58%) yn dilyn gorchymyn goruchwylio i fam y plentyn yn yr achos cyntaf. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau gwaith ymchwil cenedlaethol ynglŷn â nifer uchel o achosion ailadroddol yn dilyn gorchymyn goruchwylio annibynnol (Harwin et al. 2019). Mewn tri o'r achosion, roedd penderfyniad y llys yr un fath ag yn yr achos cyntaf – hynny yw, gorchymyn goruchwylio i'r fam.

Yn yr wyth set arall o achosion cyntaf, y gorchymynion terfynol a roddwyd oedd dau orchymyn preswyl i dadau, pum SGO i rieni-cu, ac un gorchymyn lleoli ar gyfer mabwysiadu.

- Mewn pump o'r wyth achos hyn, a oedd yn ymwneud â phlant iau, dychwelodd yr achos i'r llys oherwydd amharwyd ar gynlluniau cynharach ar gyfer sefydlogrwydd. Gweithiodd yr awdurdodau lleol yn galed gyda gwahanol fathau o ymyrraeth i geisio atal yr amhariadau hyn.
- Roedd y tri achos arall yn ymwneud â phlant hŷn mewn achosion ailadroddol mwy diweddar.

Rhwng diwedd achosion y plant yn y garfan bresennol a chwblhau'r gwaith archwilio, roedd un plentyn wedi dychwelyd i achos. Roedd gorchymyn goruchwyllo wedi cael ei roi i fam y plentyn hwn.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn Nhabl C.5 (Atodiad C).



Stori Craig: achos ailadroddol

Roedd Craig yn byw gyda'i fam a bu'n blentyn mewn angen. Gwaethygodd bethau i amddiffyn plant, ac yna achos gofal a arweiniodd at orchymyn goruchwyllo pan oedd yn 10 oed. Roedd y pryderon yn cynnwys camdriniaeth gorfforol ac emosiynol ac esgeulustod, gan fod trawma blaenorol ei fam, ei hiechyd meddwl gwael a'i chamddefnydd o sylweddau yn effeithio ar ei gallu i ddarparu gofal diogel.

Ar ôl i'r gorchymyn goruchwyllo ddod i ben, gwaethygodd y sefyllfa gartref, yn sgil diffyg trefn arferol a ffiniau. Arweiniodd hyn at bryderon cynyddol ynglŷn â diogelwch Craig, gan gynnwys bod yn agored i gamfanteisio troseddol. Roedd ei ymddygiad yn yr ysgol yn anodd ei reoli, gan arwain at waharddiadau cyfnod byr. Gwnaeth y gwasanaeth cyfiawnder ieuencid rywfaint o waith un i un gydag ef i geisio mynd i'r afael â'r risgiau. Cychwynwyd achos gofal arall pan oedd Craig yn 12 oed, a arweiniodd at orchymyn gofal.

Roedd Craig yn gwneud cynnydd da mewn gofal maeth ond cafodd y pandemig COVID-19 effaith negyddol oherwydd bod gwaith mentora a grŵp cymorth lleol Craig wedi cael eu hatal dros dro. Gwrthododd Craig waith cyfryngu gyda'i fam. Yn anffodus, tarfwyd ar ei leoliad ac mae'n aros am leoliad tymor hir newydd.

Rhesymau dros gychwyn achos, a phryderon ynglŷn â phlant a theuluoedd

Mae Tabl 2 yn rhoi'r rhesymau dros gychwyn pob achos, y prif anawsterau a oedd yn effeithio ar y gallu i fagu plant, anghenion y plant unigol, a natur unrhyw niwed y tu allan i'r teulu a amlygwyd.

Tabl 2: Y rhesymau a'r materion a oedd yn effeithio ar y gallu i fagu plant, a natur pryderon yn ymwneud â'r plant

	Awdurdod lleol				Cyfanswm
	A	B	C	Ch	
Natur y rhesymau fesul teulu					
Corfforol	4	10	6	1	21
Rhywiol	1	2	2	-	5
Emosiynol	9	19	12	9	49
Esgeulustod	6	14	11	7	38
Cam-drin domestig	3	7	9	5	24
Materion a oedd yn effeithio ar y gallu i fagu plant					
Iechyd meddwl	1	6	4	6	17
Trawma	2	9	6	4	21
Anawsterau dysgu	-	1	1	-	2
Cyffuriau/alcohol	3	7	6	6	22
Absennol	4	1	5	2	12
Wedi marw	2	2	1	-	5
Elfen ryngwladol	2	5	-	-	7
Materion yn ymwneud â'r plant					
Plentyn ag anabledau	1	2	3	-	6
Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol	2	6	8	2	18
Allan o reolaeth rhieni	2	5	3	1	11
Camfanteisio troseddol		5	5	-	10
Camfanteisio rhywiol	2	2	2	-	6
Masnachu mewn pobl	1	1	-	-	2

Pam mae plant hŷn mewn achosion gofal? Archwiliad ar sail thema mewn pedwar awdurdod lleol.


Rhesymau dros achosion

Cofnododd yr archwilydd awdurdod lleol y rhesymau dros yr achosion, a oedd fel arfer yn cynnwys mwy nag un categori niwed fesul plentyn.

Yn ein dadansoddiad, er nad oedd pob ffurflen yn cynnwys tic wrth ymyl y newidyn niwed emosiynol, roedd y sylwadau testun rhydd yn rhoi tystiolaeth gymhellol o niwed emosiynol ym mhob achos. Roedd y niwed hwn yn ymwneud yn gyffredinol ag effaith niweidiol y rhesymau eraill dros achosion: niwed corfforol, niwed rhywiol, esgeulustod, neu gam-drin domestig.

Ond nid niwed emosiynol oedd yr unig reswm dros unrhyw un o'r achosion (gweler Ffigur 4). Roedd cymysgedd o resymau dros yr achosion, ac esgeulustod oedd yr ail reswm mwyaf cyffredin (78% o'r holl deuluoedd). Cofnodwyd cam-drin domestig mewn 49% o'r teuluoedd, a cham-drin corfforol mewn 43% o'r teuluoedd. Roedd camdriniaeth rywiol yn bresennol mewn pum teulu (10%), a oedd yn effeithio ar saith merch. Roedd dwy o'r merched hyn, o ddau deulu, mewn perygl uchel o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac mae'n ddigon posibl eu bod eisoes wedi dioddef hynny.

Ffigur 4: Rhesymau a nodwyd dros achosion (cyfran y teuluoedd yr effeithiwyd arnynt)




Sylwer: Mewn rhai achosion, daethpwyd i gasgliad ynghylch niwed emosiynol o ymatebion testun rhydd i'r archwiliad yn hytrach na bod yr archwilydd wedi rhoi tic yn y blwch.

Pryderon ynglŷn â'r gallu i fagu plant

Cofnododd yr archwilyr y materion a oedd yn effeithio ar y gallu i fagu plant, ac roedd mwy nag un ffactor yn gysylltiedig â hyn fel arfer hefyd. Camddefnyddio sylweddau (45% o'r teuluoedd) a phrofiad o drawma (43%) oedd yn ymddangos amlaf, a hynny mewn bron hanner y teuluoedd o ran y ddau, ac roedd iechyd meddwl yn drydydd agos o ran amllder (35%).

Ffigur 5: Pryderon ynglŷn â'r gallu i fagu plant (cyfran y teuluoedd yr effeithiwyd arnynt)



Nid oedd yr archwiliad yn ceisio manylion ynglŷn â natur benodol y problemau iechyd meddwl neu'r profiadau trawmatig a oedd yn effeithio ar allu'r rhieni i ddarparu gofal diogel, ond cofnodwyd bod llawer o'r rhieni wedi cael asesiad seiciatrig neu seicolegol yn ystod yr achos.

Fel y dengys Ffigur 5, nifer gymharol fach o'r rhieni oedd ag anawsterau dysgu wedi'u cofnodi ar y ffurflen archwilio (dau deulu). Roedd gan un rhiant nam a oedd yn ddigon difrifol i olygu bod angen i'r Cyfreithiwr Swyddogol gymryd rhan; roedd gan rieni eraill anawsterau ysgafn neu gymedrol. Mae'n bosibl bod nifer yr achosion o anawsterau dysgu yn ein sampl wedi cael eu tangofnodi o ystyried gwaith ymchwil sy'n awgrymu efallai bod gan leiafrif arwyddocaol o rieni mewn achosion gofal anawsterau dysgu cudd neu heb eu datgelu (Booth 2000).

Gweler Tabl C.6 ac C.7 (Atodiad C) i gael rhagor o wybodaeth.


Pryderon ynglŷn â'r plant

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd pob un o'r 73 o blant wedi dioddef niwed emosiynol i ryw raddau. Yn ogystal, roedd gan yr holl blant berthynas doredig ag un rhiant neu'r ddau.⁵ Roedd hyn o ganlyniad i brofiadau blaenorol anodd, newid i amgylchiadau'r teulu, gwahanu, a newidiadau i'r trefniadau byw tra oedd plant mewn gofal.

Nodwyd bod gan oddeutu chwarter y plant (18 o 73, 25%) anawsterau emosiynol ac ymddygiadol (gweler Ffigur 6). Nodwyd bod cyfran lai o'r plant (11, 15%) 'allan o reolaeth rhieni' – safbwynt a rannwyd gan y rhieni/teulu a'r awdurdod lleol mewn rhai achosion. Roedd gan ambell blentyn (6, 8%) anawsterau sylweddol, gan gynnwys awtistiaeth gydag anhwylder cysgu, ADHD, syndrom alcohol ffetws, ac anawsterau dysgu. Nid yw'r term 'allan o reolaeth rhieni' bob amser yn awgrymu methiant rhieni; mae hefyd yn ffordd o gydnabod y dasg anodd sy'n wynebu rhieni (ac awdurdodau lleol yn eu rôl fel rhiant corfforaethol) wrth helpu plant hŷn i gadw draw oddi wrth ddylanwadau a risgiau niweidiol.

Gweler tabl C.6 (Atodiad C) i gael rhagor o wybodaeth.

Ffigur 6: Pryderon ynglŷn â'r plant



5 Defnyddiwn y term 'toredig' i olygu perthynas sydd wedi cael ei niweidio gan effaith, er enghraifft, colli rhiant, gwahanu, camdriniaeth a/neu wrthodiad, sy'n arwain at ofid i'r rhai yr effeithir arnynt ac sy'n effeithio ar y cymorth sydd ar gael i blant ac oedolion, a chyfeiriad, ffiniau a threfniadau cyfyngu ar gyfer y plant. Defnyddiwn y term i ddangos nad yw profiadau poenus o reidrwydd yn arwain at niwed parhaol a bod clwyfau'n gallu gwella, yn enwedig os yw'r ymateb iawn yn cael ei roi ar waith. Fe'n harweiniwyd yn y diffiniad hwn gan adroddiad Bwrdd Diogelu Plant Croydon (Spencer, Griffin, a Floyd 2019): disgrifiodd pobl ifanc y gofid yr oeddent wedi'i brofi a'r hyn yr oeddent yn credu bod arnynt ei angen gan oedolion eraill os nad oedd eu rhieni'n gallu rhoi'r cymorth hwnnw iddynt.

Roedd gan ychydig yn llai na thraean o'r plant (22, 30%) gynllun addysg, iechyd a gofal (EHCP), ac roedd hanner y rhai hynny ag EHCP mewn darpariaeth addysg arbennig (12, 16% o'r cyfanswm). Roedd nifer o'r plant eraill ar goll o addysg neu wedi ymddieithrio o addysg ond nid yn destun EHCP o reidrwydd, efallai oherwydd ei bod yn gallu bod yn anodd cael EHCP ar gyfer plentyn ar ôl Blwyddyn 9. Roedd dau blentyn arall wedi newid ysgol yn aml ym Mlwyddyn 7, naill ai cyn neu ar ôl cael eu derbyn i ofal, a nodwyd ar y ffurflenni archwilio bod hyn wedi bod yn gythryblus iawn ym mhob achos.

Agored i niwed y tu allan i'r teulu: continwmm diogelu

Canfuom nad oedd mwyafrif yr achosion gofal (55 o blant o 37 o deuluoedd, 75%) yn cynnwys tystiolaeth o niwed y tu allan i'r teulu.

Roedd yr achosion a oedd yn weddill (18 o blant o 12 o deuluoedd, 25%) yn dangos tystiolaeth o bryderon y tu allan i'r teulu.

Ni ddylid ystyried y rhaniad 75%/25% hwn rhwng amgylchiadau o fewn y teulu a'r tu allan i'r teulu ar ei ben ei hun oherwydd, os ystyriwn sylwadau testun rhydd yr archwilwyr hefyd, cawn ddarlun mwy cynnil o'r hyn sy'n digwydd ym mywydau'r plant a'r rhieni.

Canfuom nad oedd plant mewn achosion oherwydd **naill ai** niwed o fewn y teulu **neu** niwed y tu allan i'r teulu. Yn hytrach, roeddent ar gontinwmm lle'r oedd pryderon diogelu y tu allan i'r teulu yn amrywio o rai isel i uchel iawn, a lle'r oedd y pryderon hyn yn ychwanegol at bryderon ynglŷn â niwed o fewn y teulu. (Dangosir y continwmm hwn o bryderon diogelu yn straeon Kay, Lynn, Stephen ac Adam).

Roedd natur y pryderon yn amrywio, yn ogystal â'u graddau. Roedd y plant yng nghanol y continwmm yn agored i niwed naill ai oherwydd eu hamgylchiadau teuluol (gweler straeon Lynn a Stephen) neu eu hymddygiad wrth ymateb i'r niwed yr oeddent wedi'i ddiodef (gweler stori Adam).

Tynnwyd ein sylw at y ffactorau risg o fewn teuluoedd sy'n gallu gwneud plentyn yn fwy agored i ddylanwadau allanol – yn enwedig y niwed emosiynol a'r perthnasoedd toredig sydd mor amlwg ym mywydau'r plant yn yr archwiliad. Dangosodd cyfanswm o 34 o blant arwyddion o fod yn agored i niwed o'r tu allan i'r teulu (gweler Tabl 3). Roedd amlygiad plant i nifer fawr o ffactorau risg, a brofwyd ar yr un pryd neu dros amser, yn dystiolaeth o fregusrwydd cronnus a pherygl uchel. Roedd gan dri awdurdod lleol (A, B, C) blant a oedd mewn perygl uchel. Cofnodwyd llai o arwyddion ar gyfer y pum plentyn yn sampl awdurdod lleol Ch.

Ond nid mater o rifau yn unig yw'r agwedd hon ar niwed: mae'r ffordd y mae ffactorau risg unigol yn ffurfio clwstwr gyda'i gilydd yn berthnasol hefyd. Roeddem yn pryderu'n arbennig os oedd plant yn profi cyfuniad o fod ar goll o gartref, colli'r ysgol neu gael eu gwahardd o'r ysgol, a chysylltu â phlant eraill a oedd yn ymwneud ag ymddygiad peryglus. Yn ogystal, gall cyfuniad o berthnasoedd toredig, colled a phrofiadau trawmatig eraill effeithio ar wydnwch teuluoedd i ymdopi ag anawsterau. Ac felly hefyd, i rai plant yn yr archwiliad, yr ansicrwydd a'r ansefydlogrwydd a oedd yn deillio o anallu gweithwyr proffesiynol i ddod o hyd i leoliad i fodloni eu hanghenion.

Pam mae plant hŷn mewn achosion gofal? Archwiliad ar sail thema mewn pedwar awdurdod lleol.

Continwrm diogelu

Stori Kay: fe'i herwgipiwyd ac ymosodwyd arni'n rhywiol



Ar ôl i ofal cymdeithasol ymwneud â'i theulu am ddwy genhedlaeth, lletywyd Key (14 oed) yn wreiddiol o dan adran 20, ar gais ei mam. Nodweddyd bywyd cynnar Kay gan iechyd meddwl gwael ei mam a chael ei gwrthod gan ei chymuned o ganlyniad i dadolaeth Kay. Roedd Kay hefyd wedi bod yn destun cynllun amddiffyn plant oherwydd profiad ei mam o gam-drin domestig a chysylltiad â throseddwyd risg uchel. Roedd achosion gofal blaenorol wedi diweddu mewn gorchymyn goruchwyllo i'w mam, ond cafodd Kay bedwar lleoliad maeth rhwng y ddwy set o achosion.

Nododd yr achosion ailadroddol fod gan Kay lefel uchel o anghenion, gan gynnwys anhwylder straen wedi trawma cymhleth. Ystyriwyd bod Kay yn achosi perygl iddi hi ei hun ac eraill, a bod ganddi anghenion addysgol ychwanegol yn dilyn ei gwaharddiad parhaol o'r ysgol, camddefnyddio sylweddau, a chyfnodau o fynd ar goll. Dioddefodd herwgipio ac ymosodiad corfforol a rhywiol hefyd, ac roedd yn ymwneud â chyfoedion amheus mewn ardaloedd a oedd yn adnabyddus am gamfanteisio. Ar ôl yr achosion, rhoddwyd Kay mewn llety diogel ar ôl dechrau tanau, bygwth ei lladd ei hun a phobl eraill, cyfnodau ailadroddus o fynd ar goll, a dioddef ymosodiad rhywiol difrifol.

Table 3: Indicators of child vulnerability to extrafamilial exploitation⁶

Arwyddion	Awdurdod lleol				
	A (4)	B (14)	C (11)	Ch (5)	Cyffredinol (34)
Teulu/cartref					
Ar goll o gartref	4	11	4	-	19
Perthnasoedd toredig	4	14	11	5	34
Trais i rieni	-	1	4	1	6
Ysgol/coleg					
Absennol neu ar goll o'r ysgol/coleg	4	11	7	3	25
Dirywiad mewn perfformiad	-	9	6	3	18
Gwaharddiad cyfnod byr	1	5	1	2	9
Gwaharddiad parhaol	2	4	1	-	7
Cynllun addysg, iechyd a gofal	2	14	4	2	22
Ymddygiad					
Arwahanu oddi wrth gyfoedion, gan gynnwys bod yn darged ar gyfer bwlio a/neu fod yn fwli ei hun	2	2	4	3	11
Caffael arian neu nwyddau	-	3	2	-	5
Defnyddio ffôn symudol - cyfrinachedd, sawl ffôn, newid rhif, gwneud mwy o ddefnydd ohono	2	4	-	-	6
Mynychu ardaloedd sy'n gysylltiedig â chamfanteisio	3	5	4	1	13
Defnydd peryglus o gyfryngau cymdeithasol	1	-	-	-	1
Camddefnyddio alcohol	1	-	3	-	4
Defnyddio cyffuriau Dosbarth B	1	3	3	-	7
Defnyddio cyffuriau Dosbarth A	-	-	1	-	1
Cysylltu â chyfoedion amheus	3	7	4	-	14
Arestio	1	5	2	1	9
Euogfarn	1	3	2	-	6
Meddu ar gyllell	-	2	1	-	3
Dechrau tân	-	1	-	-	1
Iechyd corfforol a meddyliol					
Haint a drosglwyddir yn rhywiol/beichiog	1	-	-	-	1
Hunanofal gwael/newidiadau i hylendid personol	1	4	1	1	7
Colli pwysau	-	1	1	-	2
Arall - casglu pethau'n ormodol	-	1	-	-	1
Anabledd (syndrom alcohol ffetws)	-	-	1	-	1
Colled a thrawma					
Profedigaeth	1	2	-	-	3
Absenoldeb rhieni	3	2	1	2	8
Dirywiad mewn lles emosiynol	2	5	5	2	14
Trawma - diagnosis clinigol	-	3	5	2	10
Trawma - arall					
Wedi dioddef ymosodiad corfforol	2	1	1	-	4
Wedi dioddef ymosodiad rhywiol	2	2	1	-	5
Ansefydlogrwydd hirfaith	-	4	-	-	4
Bygythiad priodas dan orfod	1	-	-	-	1

6 These potential indicators of vulnerability to extra-familial harm draw in particular on Firmin, Wroe, and Lloyd J (2019).



Pam mae plant hyn mewn achosion gofal? Archwiliad ar sail thema mewn pedwar awdurdod lleol.

Stori Lynn a Stephen: agored i niwed trwy amgylchiadau

Roedd mam Lynn (13) a Stephen (12) yn camddefnyddio cyffuriau ond nid oedd yn hysbys i wasanaethau plant. Gwaethygodd y sefyllfa'n sydyn pan ganfu cyrch gan yr heddlu yn rhan o ymchwiliad llinellau cyffuriau fod eu cartref wedi cael ei 'gogio' ar gyfer delio cyffuriau. Daeth y plant i ofal trwy amddiffyniad yr heddlu.

Roedd cysylltiad â thad y plant wedi darfod, ond adferwyd hyn a datblygodd yn gadarnhaol wrth i gymorth proffesiynol ei helpu i wneud newidiadau mawr i'w fywyd ei hun. Symudodd y plant i'w gartref yn ystod yr achos, a arweiniodd at roi gorchymyn trefniadau plant iddo a dim rhagor o ymwneud gan wasanaethau.

Dywedwyd bod Lynn 'yn drist ac yn ddwys', a hithau wedi ymgymryd â'r rôl rianta ar gyfer Stephen. Mae'r ddau blentyn wedi ymgartrefu'n dda, gyda gwelliant mawr mewn presenoldeb yn yr ysgol a datblygiad addysgol.

Stori Adam: agored i niwed trwy effaith trawma

Roedd Adam (11) yn destun achos ar ôl niwed emosiynol ac esgeulustod tymor hir. Roedd gallu ei rieni i ddarparu gofal diogel a magwrol wedi'i gyfyngu gan eu hiechyd meddwl gwael, trawma cronedig, camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig. Bu tri chyfnod o gofrestriad amddiffyn plant ac ymwneud penodol gan wasanaethau mewn perthynas â'r cam-drin domestig a ddioddefwyd gan ei fam. Roedd yr achos cyntaf wedi arwain at orchymyn goruchwyllo ac roedd y mater wedi dychwelyd i'r llys ar gyfer estyniad. Roedd Adam yn mynychu ardaloedd a oedd yn adnabyddus am gamfanteisio, nid oedd yn mynd i'r ysgol, ac roedd wedi'i arwahanu oddi wrth ei gyfoedion. Mae bellach mewn gofal preswyl ac yn gwneud yn dda mewn therapi ac addysg.

Proses y llys: hyd achosion a defnydd o estyniadau


At ei gilydd, roedd ychydig dros hanner yr achosion (29 o'r 49 o deuluoedd) wedi cael estyniad gan y barnwr i'r gofyniad cyfreithiol i gwblhau achos gofal o fewn 26 wythnos. Roedd y rhesymau dros estyniad yn amrywio ac yn cynnwys y canlynol.

- Materion yn ymwneud â lleoli – Nodwedd drawiadol, er nad annisgwyl, o'r archwiliad oedd y dyfalwch a'r amser a dreuliwyd yn chwilio am leoliad addas ar gyfer rhai o'r plant mwyaf agored i niwed. Roedd hyn yn arbennig o amlwg pan oedd ystyriaethau diogelwch y cyhoedd neu les plant yn sbarduno penderfyniadau am ddarpariaethau amddifadu o ryddid a ganiatawyd gan y llys. Roedd gofod gweithredu mewn argyfwng yn creu baich ychwanegol o ran dod o hyd i leoliad addas mewn modd amserol.
- Grwpiau brodyr a chwiorydd – Roedd angen mwy o amser pan oedd nifer o frodyr a chwiorydd, yn enwedig os oedd angen i rai gael asesiadau 'gyda'i gilydd neu ar wahân' neu os oedd cynllunio gofal tymor hir yn fwy cymhleth oherwydd y gwahanol oedrannau neu anghenion datblygiadol ac arbennig eraill a oedd yn gysylltiedig.
- Amgylchiadau cymhleth eraill – Roedd enghreifftiau'n cynnwys: nifer o asesiadau o ofalwyr posibl neu un neu fwy o berthnasau a oedd yn cynnig eu hunain yn hwyr ar gyfer asesiad SGO; tarfu ar drefniadau gofal teulu; ceisiadau am wrandawriad canfod ffeithiau pan oedd honiad o gam-drin rhywiol ond dim erlyniad troseddol; ac achosion a oedd yn golygu bod angen ymholiadau neu asesiadau rhyngwladol neu chwilio am rieni plentyn.
- Profi'r cynllun a ffefrir – Mewn achos sy'n datblygu'n dda, yn arbennig, fe allai'r barnwr gytuno i estyniad fel ffordd ragofalus o brofi llwyddiant tebygol dychwelyd plentyn i'w riant yn ddiogel neu ei symud o fewn y teulu am ychydig wythnosau ychwanegol.
- Creodd COVID-19 oedi mewn ambell achos – Roedd hyn yn cynnwys achosion a gychwynwyd tua diwedd 2019/20, wrth i'r cyfyngiadau symud ddechrau, neu'r rhai hynny yr oedd gwrandawriad terfynol wedi'i drefnu ar eu cyfer oddeutu'r adeg honno.

Penderfyniadau'r llys: gorchmynion a wnaed ar ddiwedd achosion gofal

Y prif ganfyddiad yw bod ychydig dros hanner y plant (38/52%) wedi aros mewn gofal dan orchymyn gofal, a bod ychydig dros draean (26/36%) wedi dychwelyd i'w rhiant/rhieni neu wedi aros o fewn eu rhwydwaith teulu o dan orchymyn gwahanol (e.e. gorchmynion goruchwyllo, SGOs, gorchmynion trefniadau plant). Roedd yr ychydig blant eraill naill ai'n aros i'w hachosion gael eu cwblhau neu wedi dod allan o achosion.

Ffigur 7: Crynodeb cyffredinol o benderfyniadau'r llys



Defnyddiwyd y gwahanol orchmynion achosion gofal fel a ganlyn.

Gorchmynion gofal (38): Gwnaed gorchymyn gofal ar gyfer ychydig dros hanner y plant (38/52%). O ran pob un, namyn un, o'r saith plentyn a oedd mewn achosion nad oeddent wedi'u cwblhau eto, roedd yn debygol y byddai'r achos yn diweddu mewn gorchmynion gofal, o ystyried bod y plant mewn gofal (maeth) ar ICOs.

Gorchmynion goruchwyllo (14, gan gynnwys pedwar â gorchmynion trefniadau plant): Roedd y rhain yn bennaf yn adlewyrchu plant a oedd yn aros gyda'u mam (mewn wyth achos), ac fe'u gwnaed gyda'r bwriad y byddai'r awdurdod lleol yn darparu 'cymorth, cyngor a chyfeillio'. Gwnaed gorchmynion goruchwyllo yn fwyaf aml yng ngharfanau Llundain a de Lloegr, gan adlewyrchu gwahaniaeth rhanbarthol yn y defnydd ohonynt, o bosibl (gweler hefyd Harwin et al. 2019). Roedd un achos o wneud gorchymyn goruchwyllo ochr yn ochr ag SGO; gwnaed hyn oherwydd nad oedd un o'r ddau frawd a chwaer a oedd dan sylw yn yr achos yn perthyn i'r gwarcheidwad arbennig, roedd y trefniant yn newydd, ac roedd yn dilyn profedigaeth. Nid oedd yn eglur, mewn unrhyw achos, p'un a oedd gwneud y gorchymyn goruchwyllo yn arwydd o bryderon parhaus, neu ddymuniad i gryfhau'r tebygolrwydd

y byddai'r teulu'n cael unrhyw 'gymorth a chefnogaeth' y gallai fod arnynt eu hangen gan yr awdurdod lleol, neu am ryw reswm arall.

Gorchmynion trefniadau plant (wyth, gan gynnwys tri â gorchmynion

goruchwylio): Roedd y rhain yn bennaf yn adlewyrchu plant a oedd yn symud o un rhiant i'r llall, yn dilyn pryderon diogelu ynglŷn ag un rhiant ac asesiad cadarnhaol o'r llall. Symudodd un plentyn o'i dad i'w fam, chwech o'u mam i'w tad ac un i fam-gu o ochr y tad.

SGOs (chwech, gan gynnwys un â gorchymyn goruchwylio, a nodwyd uchod):

Gwnaed y rhain ym mhob carfan awdurdod lleol, sy'n dangos bod byw gydag unigolyn cysylltiedig yn parhau i fod yn opsiwn lleoli ar gyfer y grŵp hwn o blant.

Achos wedi'i dynnu'n ôl neu ei drosglwyddo (dau): Roedd un cais a dynnwyd yn ôl yn ymwneud â pherson ifanc a oedd yn nesáu at 17 oed ac yr oedd ei chwaer iau yn parhau i fod mewn achos. Yn yr achos arall, trosglwyddodd y mater i awdurdod lleol arall oherwydd bod y teulu wedi symud tŷ yn syth ar ôl i'r achos gael ei gychwyn.


Gweler Tabl C.8 (Atodiad C) i gael y data llawn.

Cynlluniau lleoliad gofal awdurdodau lleol

Roedd ychydig dros ddwy ran o dair o'r plant a oedd mewn gofal (30 o 44, 68%) yn byw mewn trefniadau maethu, rhai gyda gofalwyr sy'n berthynas neu unigolyn cysylltiedig (pump gyda rhieni-cu, y llall gyda rhiant ffrind ysgol).

Roedd chwarter o'r plant (12/26%) mewn gofal preswyl, gan gynnwys un plentyn a oedd mewn llety diogel ar adeg yr archwiliad. Roedd y ddau blentyn arall mewn trefniadau byw'n lled-annibynnol.

Ffigur 8: Trefniadau byw presennol y plant a oedd mewn gofal (38 gorchymyn gofal a 6 ICO)



Mae Tabl C.9 (Atodiad C) yn rhoi dadansoddiad fesul awdurdod lleol o'r lleoliadau a wnaed ar gyfer y plant a oedd yn destun gorchymyn gofal ar ddiwedd achosion.

Defnydd o lety diogel neu amddifadu o ryddid

Roedd saith plentyn o chwe theulu ar draws tri o'r awdurdodau lleol wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid o dan orchymyn llety diogel neu awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys, neu'n debygol o gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn fuan. Yn ogystal, amddifadwyd plant eraill o'u rhyddid ar ôl achosion. Mae eu hamgylchiadau'n perthyn i un o dri grŵp.

- Mewn perygl o gamfanteisio'n droseddol ar blant: Roedd y grŵp hwn yn cynnwys pedwar bachgen a oedd yn hysbys i wasanaethau cyfiawnder teuluol a chyfiawnder ieuenctid, â phroffiliau uchel ar gyfer camfanteisio troseddol. Roeddent yn ddwy set o frodyr o un awdurdod lleol, un o deulu Du Affricanaidd a'r llall o deulu Gwyn Prydeinig. Roedd dau o'r bechgyn wedi cael eu dal yn yr ystad ddiogel i bobl ifanc (mewn sefydliad troseddau ieuenctid neu ganolfan hyfforddi ddiogel), oherwydd eu hymddygiad troseddol, ac roedd angen i'r ddau arall gael lleoliadau lles diogel. Roedd diffyg llety addas i ddarparu ar gyfer eu hanghenion uchel, a'r risgiau uchel a oedd yn gysylltiedig, wedi ysgogi'r awdurdodau lleol i wneud cais (ar gamau gwahanol) i'r Uchel Lys am orchymyn amddifadu o ryddid ar gyfer tri o'r bechgyn.
- Mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant: Roedd y grŵp hwn yn cynnwys pedair merch, o bedwar teulu gwahanol, â phroffil uchel ar gyfer camfanteisio'n rhywiol, ac roedd gan bob un gefndir o drawma cronus, gan gynnwys ymosodiad rhywiol (gweler stori Natasha ar ddechrau'r adroddiad). Roedd un mewn llety diogel yn ystod yr achos, a chafodd un arall ei derbyn yn wirfoddol i ysbyty seiciatrig. Aeth un i gartref plant diogel ar ôl yr achos, ac amddifadwyd y bedwaredd ferch o'i rhyddid gan y llys o dan yr awdurdodaeth gynhenid ar ôl yr achos.
- Mewn perygl o drawma iechyd meddwl ychwanegol: Cafodd un plentyn, a oedd wedi cael ei fasnachu o bosibl, ei anfon i ysbyty meddwl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl pan oedd yn 13 oed, tra oedd mewn gofal (gweler stori Omar).

Roedd y saith plentyn a fu'n destun gorchymyn llety diogel neu orchymyn a oedd yn eu hamddifadu o'u rhyddid trwy'r Uchel Lys, neu a dderbyniwyd i'r ysbyty o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl, wedi trosglwyddo wedi hynny i leoliad preswyl addas neu drefniant lled-annibynnol wedi'i deilwra.

Gwerth gwahanol ddulliau o fynd i'r afael ag angen uchel/risg uchel mewn lleoliadau diogel a gartref

Fel y dangosir yn straeon Natasha, Zach a Mali, gallai'r amser a dreulir mewn lleoliad diogel roi plant ar drywydd newid cadarnhaol trwy roi cyfle iddynt gael mynediad at ymyriadau ac ymgysylltu â nhw'n ddiogel. Canfuom fod hyn yn ymddangos yn fwy tebygol pan oedd trefniadau amddifadu o ryddid yn cael eu gwneud mewn ffordd gynlluniedig yn rhan o strategaeth glir i'r plentyn yn hytrach nag mewn argyfwng gan nad oedd gwely ar gael mewn cartref diogel i blant.

Canfuom hefyd greadigrwydd trawiadol mewn rhai trefniadau i amddiffyn plentyn rhag y tebygolrwydd cryf o orfod mynd i lety diogel (gweler stori Alex).

Stori Zach a Mali: bechgyn a oedd mewn perygl o gamfanteisio troseddol

Brodyr yw Zach (15) a Mali (14). Roeddent mewn achos gofal gyntaf pan oeddent yn iau na phum mlwydd oed, a arweiniodd at roi gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig (SGOs) i aelod o'r teulu. Roedd hyn yn dilyn esgeulustod a niwed emosiynol gan eu rhieni.

Wrth i'r bechgyn fynd yn hŷn, fe ddechreuon nhw gael cysylltiad heb ei oruchwylio â'u rhieni ac arweiniodd hyn at chwalu arferion dyddiol a ffiniau. Yn eu harddegau, fe ddaethant yn gysylltiedig â gangiau lleol ac roeddent mewn perygl o gamfanteisio troseddol. Buont yn ymwneud ag ymosodiadau corfforol, gan gynnwys trywanu. Roeddent ar goll o'r cartref a'r ysgol yn aml, yn treulio amser mewn ardaloedd sy'n gysylltiedig â chamfanteisio, a chawsant eu harestio am nifer o wahanol droseddau. Daeth y tîm troseddau ieuencid lleol yn gysylltiedig.

Roedd y barnwr yn y llys teulu eisiau rhoi'r bechgyn mewn llety diogel, ond fe arhoson nhw gartref gan nad oedd lleoliad lles ar gael. Yn fuan wedi hynny, arestiwyd y ddau am drosedd ddifrifol ac fe'u hanfonwyd ar remánd i'r ystad ddiogel i bobl ifanc trwy'r llys ieuencid. Tra oeddent yno, cyhuddwyd y brawd iau o lofruddiaeth ac arhosodd ar remánd yn yr ystad ddiogel. Protestiodd ei fod yn ddiuog ar hyd yr amser ac fe'i rhyddfarnwyd o'r cyhuddiad hwnnw, ond fe'i cafwyd yn euog o gyhuddiad llai.

Ymatebodd y ddau fachgen yn dda i'w hamser yn yr ystad ddiogel, gan ymgysylltu â'r ymyriadau a dangos dealltwriaeth o'u hymddygiad. Gwnaethant ddal i fyny â rhywfaint o'r addysg yr oeddent wedi'i cholli a cheisio cymorth therapiwtig ar ôl cael eu rhyddhau. Roedd y cynllun ymadael o'r ystad ddiogel yn cynnwys darpariaeth breswyl



ar wahân iddynt, ac i Zach roedd hyn yn cynnwys cyfnod o addasu trwy orchymyn amddifadu o ryddid a ganiatawyd gan y llys. Rhyddhawyd Mali yn syth ar ôl ei ryddfarn ac, oherwydd ei fod yn 16 oed bryd hynny, gwnaed trefniadau lled-annibyniaeth wedi'u teilwra iddo. Mae'r ddau fachgen yn parhau i wneud cynnydd: maen nhw'n cynnal cysylltiad ag aelodau o'r teulu ac nid ydynt wedi bod yn ymwneud â mwy o droseddu.

Stori Alex: amddiffyn gan gynllun cymorth tra'i fod yn aros gartref

Mae Alex (15) yn blentyn canol mewn grŵp mawr o frodyr a chwiorydd. Roedd y gwasanaethau plant wedi bod yn ymwneud ers tro trwy gymorth plant mewn angen, amddiffyn plant, a gwaith cyn-achos, oll mewn perthynas ag esgeulustod cronig. Mae iechyd meddwl gwael, anawsterau dysgu a thrawma cronedig yn effeithio ar allu ei rieni i ddarparu gofal diogel.

Cafodd Alex ddiagnosis o ADHD ac anhwylder herio gwrthryfelgar. Roedd yn agored iawn i gamfanteisio troseddol. Roedd ar goll o'i gartref yn aml, wedi cael ei wahardd o'r ysgol am feddu ar gyllell, ac yn camddefnyddio alcohol a chanabis. Roedd yn destun trafodaethau rheolaidd gan y panel Amlasiantaethol Camfanteisio ar Blant (MACE), ac roedd yn cael cyfarfodydd wythnosol â'r gwasanaeth cyfiawnder ieuencid yn rhan o ymyrraeth datrys cymunedol dri mis. Yn ystod yr achos, cafodd dri lleoliad maeth a chyfnod byr gyda ffrind i'r teulu, ond parhaodd i gysylltu â gwrywod hyn a oedd yn ymwneud â gweithgarwch troseddol a chamfanteisio.

Pan oedd yn amlwg nad oedd bod mewn gofal yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, symudodd yr awdurdod lleol ef yn ôl adref, a darparodd gymorth ac ymyrraeth wedi'u teilwra i Alex a'i rieni.

Roedd y cynllun gofal yn ddwys ac yn amlasiantaethol, gyda gweithwyr proffesiynol o'r gwasanaethau plant, y tîm troseddau ieuencid a'r Tîm 16+ yn ymwneud bob dydd. Roedd yn greadigol ac yn gyson, gyda gwaith cymdeithasol ar gyfer pob aelod o'r teulu, tiwtora gartref ar gyfer Alex, a chymorth ymarferol i'r teulu. Gan fod y plant iau yn parhau i fod yn eu lleoliad gofal, roedd Alex yn gallu cael lle i anadlu fel yr unig blentyn a oedd gartref. Mae ei gyfnodau o fynd ar goll wedi lleihau (dim yn 2021 ar yr adeg ysgrifennu) ac mae bellach yn ddigon diogel iddo gael addysg mewn lleoliad oddi cartref. Gobeithir y bydd yn cyflawni cymwysterau TGAU mewn Saesneg a Mathemateg. Gorffennodd yr achos gofal gydag Alex gartref, gyda gorchymyn goruchwyllo i'w rieni.

Lleoliadau plant a nifer y symudiadau

Cofnododd y ffurflen archwilio hefyd sawl gwaith yr oedd plant wedi symud lleoliad ers i'r achosion ddod i ben.

- Roedd bron hanner y plant a oedd yn aros mewn gofal ar ôl diwedd achos wedi aros lle'r oeddent yn byw ar y pryd, felly nid oeddent wedi symud.
- Y plant mewn trefniadau gofal gan berthynas oedd y rhai a oedd wedi symud lleoliad y nifer leiaf o weithiau.
- Roedd bron dwy ran o dair o'r plant wedi cael dim mwy na dau lleoliad ers diwedd yr achosion 12 i 20 mis yn ôl.
- O ran y plant a oedd wedi cael mwy na phedwar lleoliad maeth ers cael eu derbyn i ofal, roedd unrhyw symudiad dilynol yn debygol o fod i ddarpariaeth gofal preswyl.
- Y plant mwyaf agored i niwed ac a oedd wedi dioddef y trawma mwyaf yn yr archwiliad oedd y rhai a oedd wedi symud lleoliad y nifer fwyaf o weithiau ers bod mewn gofal. Roedd un plentyn wedi cael ei symud 11 o weithiau, ac un arall 9 o weithiau. Mae hefyd yn wir mai'r rhai a oedd yn fwyaf agored i niwed, ac a symudwyd yn fwyaf aml, oedd yn y perygl mwyaf o ddioddef niwed y tu allan i'r teulu a chael eu hamddifadu o'u rhyddid trwy lety diogel neu fel arall.

Dylid bod yn ofalus wrth fyfyrion ar sawl gwaith y symudwyd lleoliad a'r amser a dreuliwyd ym mhob lleoliad oherwydd y gwahanol newidynnau sy'n gysylltiedig, gan gynnwys: y rhesymau dros bob symudiad, y cyfnod rhwng symudiadau, a faint o gynllunio a wnaed cyn newid lleoliad. Mae symudiadau mewn argyfwng a symudiadau heb eu trefnu yn fwy agored i baru gwael ac yn debygol o gael eu tarfu. Mae plant sy'n cael eu derbyn i ofal trwy amddiffyniad yr heddlu yn fwy tebygol o symud ymlaen yn gyflym o'r lleoliad argyfwng cychwynnol, ond efallai y bydd angen iddynt symud eto cyn y gellir trefnu lleoliad tymor hwy addas. Mae'r rhai 16 oed a hŷn yn debygol o fod yn gwneud symudiad wedi'i gynllunio i ddarpariaeth led-annibynnol, ac mae'n bwysig gwneud gwaith ystyriol a gofalus yn y sefyllfa hon hefyd i gynllunio a pharu cyn y lleoliad er mwyn cynorthwyo pobl ifanc i ymgartrefu yn ystod y cam pontio hwn. Yn olaf, bydd mwy o bwys yn cael ei roi i ddymuniadau a theimladau plant wrth iddynt fynd yn hŷn, ac mae hyn yn berthnasol i benderfyniadau am lleoliadau llawn cymaint â phethau eraill.

Roedd plant yn parhau i fod mewn perygl niwed y tu allan i'r teulu tra'u bod mewn gofal. Mae stori Jade yn dangos y pryderon sy'n gallu codi ynglŷn â phlentyn sydd eisoes mewn gofal. Mae stori Natasha, ar ddechrau'r adroddiad, yn debyg, er bod ei stori hi'n ymwneud â'i phrofiadau o niwed cyn cael ei derbyn i ofal i gael ei hamddiffyn. Mae cyfodod y straeon yn helpu i ddangos anhawster parhaus dod o hyd i'r ymateb iawn i'r ffactorau risg sy'n parhau mewn bywydau rhai plant, ni waeth p'un a ydynt gartref neu mewn gofal.



Pam mae plant hŷn mewn achosion gofal? Archwiliad ar sail thema mewn pedwar awdurdod lleol.

Stori Jade: mewn gofal tymor hir, gydag angen cynyddol i'w hamddiffyn

Mae Jade (16) wedi treulio'i hoes gyfan, bron, mewn gofal. Fe'i hesgeuluswyd pan oedd yn faban oherwydd bod gan ei mam iechyd meddwl gwael ac roedd yn camddefnyddio sylweddau. Ni wyddys pwy yw ei thad. Nid oedd cynllun ar gyfer ei mabwysiadu pan oedd yn bedair oed wedi dwyn ffrwyth a bu farw ei mam beth amser wedi hynny.

Mae Jade mewn perygl uchel o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, gyda thystiolaeth ei bod yn cael ei defnyddio i recriwtio plant eraill. Ysgogodd hyn yr awdurdod lleol i wneud cais am orchymyn llety diogel. Gan nad oedd lle ar gael mewn cartref diogel i blant, rhoddwyd Jade mewn lleoliad anghofrestredig dan orchymyn amddifadu o ryddid a ganiatawyd gan y llys, tra'n disgwyl lle mewn llety diogel. Yn ogystal â hanes o drama a phrofedigaeth, mae Jade wedi cael cyfnodau hir o fod yn absennol o'r ysgol a darpariaeth addysgol amgen. Mae hi wedi cael euogfarnau oherwydd ei hymddygiad mewn gofal yn deillio o ddifrod i eiddo a rhoi'r adeilad gofal preswyl lle'r oedd hi'n byw ar dân.

Dechreuodd Jade wneud cynnydd da ar ôl cael ei rhyddhau o lety diogel, gan felly osgoi lleoliad diogel arall. Mae 'tîm o amgylch y plentyn' amlbroffesiynol wedi cael ei roi ar waith. Mae hi'n dweud ei bod 'yn teimlo'n hapusach nag erioed' a bellach yn pontio i annibyniaeth.

Ymwneud gan wahanol asiantaethau partner

Drwy gydol y gwaith hwn, rydym wedi bod yn ymwybodol bod y 'system' y mae plant a'u teuluoedd yn ymwneud â hi, mewn gwirionedd, yn groestoriad cymhleth o systemau, wedi'u hadeiladu ar wahanol fframweithiau cyfreithiol a gofynion polisi sy'n darparu ystod o wasanaethau lles, iechyd a diogelu.

Mae'r gwaith archwilio wedi amlygu rhai o'r ystyriaethau o ran ymarfer sy'n deillio o'r cymhlethdod hwn. Mae hyn yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant rhag niwed, atal ac ymyrryd â'u hymddygiad troseddol, a lleihau'r tebygolrwydd o droseddau ychwanegol. Mae hefyd yn ymwneud â chyflawni cyfrifoldebau llywodraeth genedlaethol a lleol (gyda phwyslais gwahanol) i fynd i'r afael ag anfantais a chaledi, cynorthwyo teuluoedd mewn ffyrdd sy'n rhoi'r cyfle gorau i blant gael eu magu o fewn eu rhwydwaith teulu, a darparu gofal o'r ansawdd uchaf i blant nad yw hynny'n bosibl iddynt.

Canfuom dystiolaeth yn yr archwiliad o'r ymyriadau a'r dulliau yr oedd asiantaethau partner diogelu lleol yn eu defnyddio wrth weithio gyda phlant a theuluoedd. Rhoddir isod flas ar yr hyn a ganfuom, yn gyntaf ynglŷn â gwasanaethau plant ac yna cyfiawnder ieuencid, addysg a gwasanaethau iechyd.

Gwasanaethau plant

Cyn achosion

Roedd yr adnoddau a ddarparwyd neu a gydlynwyd gan wasanaethau plant yn amrywio o ran cwmpas. Roedd rhai'n ymyriadau uniongyrchol ar gyfer anghenion penodol: gwella sgiliau magu plant; darparu cymorth ymarferol neu seibiant o straen gofalu'n barhaus am blentyn ag anableddau; neu leihau effaith marwolaeth yn y teulu, perthnasoedd a oedd wedi chwalu neu dlodi hirsefydlog a mathau eraill o anfantais.

Roedd ymatebion eraill yn ymwneud â chysylltu plant a/neu rieni ag eraill mewn amgylchiadau tebyg neu â diddordebau tebyg. Gwnaed hyn trwy sefydliadau ffydd a diwylliannol, asiantaethau gwirfoddol sy'n cynnig cymorth iechyd meddwl, a chymorth i blant ('gofalwyr ifanc') a oedd yn ymdopi â chyfrifoldebau gofalu gartref a oedd yn anghymesur â'u hoedran.

Roedd trydydd math o adnodd yn cynnwys tîm arbenigol a oedd yn cynnig ymyrraeth ddwys i ddargyfeirio plant a theluoedd oddi wrth y llys a gofal, y cyfeiriwyd ato'n aml fel gwasanaeth 'ar gyrion gofal'.

Ar ôl achosion

Roedd yr adnoddau a nodwyd ar y cam hwn yn ymwneud â chryfhau sefyllfa newydd plentyn a helpu teuluoedd i ymdopi â chanlyniadau achosion. Roeddent yn cynnwys: prosiectau gyda ac ar gyfer rhieni geni, i helpu plant i adsefydlu gartref, lleihau perygl achosion ailadroddol, a darparu cymorth eirioli a chan gymheiriaid; help i'r rhai sy'n gadael gofal, yn enwedig y rhai hynny sy'n symud i annibyniaeth; a grwpiau cymorth i'r rhai sy'n darparu gofal fel gwarcheidwaid arbennig.

Roedd adnoddau eraill yn cynnwys CAMHS penodol ar gyfer plant mewn gofal a'u gofalwyr; darparu cymorth gan gymheiriaid i rwydwaith bach o ofalwyr maeth a gydlynwyd gan ofalwr profiadol; a chynllun o gyfweliadau annibynnol gyda phlant mewn gofal ar ôl cyfnodau o fynd ar goll.

Ar bob cam: cyn, yn ystod ac ar ôl achosion

Gwrthwynebu camfanteisio

Roedd rhai adnoddau wedi'u cyfeirio at adnabod, atal a lleiafu risg camfanteisio troseddol a/neu rhywiol. Roedd y rhain yn cynnwys y dull Diogelu Cyd-destunol.⁷ Roedd un awdurdod lleol yn defnyddio cyfarfodydd cwmpasu. Cyfarfodydd cymhleth yw'r rhain, sy'n cael eu cadeirio gan uwch reolwr a'u mynychu gan ystod eang o weithwyr proffesiynol. Diben y cyfarfodydd hyn yw rhannu gwybodaeth am bryderon diogelu ar gyfer pob plentyn a gweithredu arnynt, a chreu cynlluniau ac ymdrechion diogelwch ehangach i darfu ar 'gangiau' a rhwydweithiau camfanteisio. Roedd paneli Amlasiantaethol Camfanteisio ar Blant (MACE) yn gwneud gwaith tebyg mewn meysydd archwilio eraill, a soniodd un awdurdod lleol am gyfraniad gan weithiwr arbenigol a sgrinio i helpu i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Rhododd un o'r awdurdodau lleol wybodaeth ddefnyddiol ynglŷn ag i ba raddau yr oedd ei blant lleol yn cael sylw amlasiantaethol agos oherwydd pryder ynglŷn â chamfanteisio. Ar adeg yr archwiliad, roedd 10 o blant (merched i gyd) mewn perygl o gamfanteisio rhywiol – roedd 6 gartref, fel plant mewn angen, ac roedd 4 mewn gofal o dan orchymyn gofal. Roedd 14 o blant eraill (bechgyn i gyd) yn destun sylw oherwydd perygl o gamfanteisio troseddol – roedd 9 gartref, fel plant mewn angen, ac roedd 5 mewn gofal o dan orchymyn gofal.

Cynadleddau grŵp teulu

Roedd pob un o'r pedwar awdurdod lleol yn defnyddio cynadleddau grŵp teulu (FGCs). Ar draws yr archwiliad, roedd 21 o'r 49 o deuluoedd (42%) wedi cael o leiaf un FGC, er hynny o wahanol faint a dwysedd. Roedd awdurdod lleol B wedi hwyluso FGCs gydag ychydig yn llai na hanner ei deuluoedd. Roedd awdurdodau lleol A ac Ch wedi gwneud hynny gydag un teulu yr un; er y gwnaed rhywfaint o ymdrech i ddefnyddio FGCs yn amlach, sefydlwyd rhai yn rhy hwyr i gael eu clywed mewn achosion, roedd rhai rhieni wedi gwrthod y cynnig, ac ni ellid dod o hyd i berthnasau mewn ambell achos.

Roedd yr arferion yn awdurdod lleol C yn wahanol iawn. Cynigiwyd FGC i bob teulu yn yr archwiliad, dim ond un oedd wedi gwrthod, ac roedd rhai teuluoedd wedi cael mwy nag un gynhadledd – yn gyffredinol, un cyn ac un yn ystod yr achos.

7 <https://contextualsafeguarding.org.uk>

Roedd buddion FGC yn yr awdurdod lleol hwn yn ymddangos yn sylweddol a phellgyrhaeddol.

- Cafodd tri o blant (unig blentyn a dau frawd neu chwaer) warcheidwad arbennig i fyw gydag ef – roeddent yn berthnasau, rhieni bedydd a ffrindiau i'r teulu.
- Gwnaeth pump o blant symudiad cadarnhaol o fewn eu teulu – o'r tad i'r fam; o'r fam i'r tad; i fam-gu a ddaeth yn ofalwr maeth sy'n berthynas i'r plant; i dad/llystad ar ôl marwolaeth mam y plentyn; ac mae un plentyn yn parhau i fod gyda'i fam, a'r ddau yn byw gyda mam-gu'r plentyn o ochr y fam.
- Mewn dau deulu, roedd FGC wedi paratoi'r ffordd ar gyfer trosglwyddo'n ddiraffferth – mewn un achos gan greu'r cynllun cymorth er mwyn i chwiorydd mewn profedigaeth symud ymlaen gyda'i gilydd, ac mewn achos arall sicrhau bod y trefniadau i blentyn aros gyda chymydog yn parhau tra'n disgwyl ei symudiad wedi'i gynllunio i ofal maeth.
- Roedd FGCs yn cynyddu hyder mewn cynlluniau gofal – er enghraifft, mewn un achos, roedd plant wedi gallu aros gyda'u mam, dan orchmynion goruchwyllo, oherwydd bod yr FGC wedi ysgogi asesiad llawnach o'r cymorth a oedd ar gael gan deulu'r fam.
- Roedd FGCs yn cadw opsiynau rhwydwaith teulu ar agor ac yn cynorthwyo teuluoedd i ailsefydlu cysylltiadau. Roedd un plentyn, yr effeithiwyd arno gan gamfanteisio troseddol, wedi gallu treulio amser gyda pherthnasau. Roedd yr FGC wedi cynorthwyo plentyn a oedd yn symud o ofal maeth ffurfiol i ailsefydlu cysylltiadau â'i deulu mawr o ochr y fam, a oedd wedi diflannu o'i fywyd ar ôl marwolaeth ei fam. Arweiniodd hyn at gyfnodau o seibiant gydag un perthynas a datblygu cynlluniau gydag aelodau eraill o'r teulu. Mae'r dull hwn yn gyson â gwaith arall mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, i helpu plant mewn gofal i ddod o hyd i'w perthnasau 'coll'.⁹

Roedd tystiolaeth ym mhob un o'r awdurdodau lleol, hyd yn oed pan nad oedd FGC wedi arwain at leoliad gydag aelod o'r teulu, ei bod wedi helpu i gryfhau perthnasoedd teuluol. Er enghraifft, cynorthwywyd un plentyn i aros dros nos gyda'i dad. O ran teulu arall, roedd yr FGC wedi arwain at drefniadau seibiant o fewn teulu'r plentyn o ochr y dad fel modd o gefnogi ei leoliad gyda'i rieni-cu o ochr y fam. Mewn achos arall, roedd yr FGC wedi amlygu aelodau o'r teulu i gael eu hasesu fel gofawyr ar gyfer plentyn; er nad oedd hyn wedi arwain at leoli'r plentyn gyda nhw, roedd cysylltiad â pherthnasau wedi parhau ar ôl i'r achos ddod i ben ac felly wedi helpu i hybu a chefnogi'r cynllun gofal terfynol.

9 Mae'r prosiect wedi galluogi plant i gysylltu â hyd at 27 o gysylltiadau coll. www.frg.org.uk/lifelong-links/.

Gwnaethom archwilio arferion a pholisi ynglŷn ag FGC yn fanylach gydag awdurdod lleol C. Canfuom fod ganddo dîm mewnol a oedd wedi'i sefydlu ers tro, bod teuluoedd yn derbyn cynigion gan y gwasanaeth bron bob tro, a bod gweithwyr yn dal ati os oedd teuluoedd yn gwrthod i ddechrau. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar arfer da FGC ac mae gan y gwasanaeth weithwyr medrus sy'n hyderus wrth reoli cyfarfodydd ag aelodau teuluoedd.

Roedd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r FGC fel ffordd ofynnol o archwilio holl opsiynau'r teulu ar gam cynnar. Mae'r polisi wedi'i ategu gan gymorth ariannol hael i berthnasau sy'n gofalu am blant nad yw eu rhieni'n gallu gofalu amdanynt yn ddiogel. Mae anghenion y plentyn yn cael eu cadw'n ganolog yn y cynllun teulu sy'n deillio o FGC.

Ceir arweinyddiaeth gofal cymdeithasol sy'n cefnogi gofal teulu fel opsiwn cadarnhaol tymor hir i blant, hyd yn oed os oes risgiau a amlygwyd. Mae hyn yn ymestyn i deulu'r plentyn o ochr y tad, hyd yn oed os nad oes llawer o gysylltiad â'r tad. Mae'r dybiaeth warthnodol fod yr holl anawsterau difrifol o ran magu plant yn deillio o'r gofal gwael a gafodd y rhieni eu hunain pan oeddent yn blant, a'i bod yn dilyn felly bod rhieni-cu neu berthnasau eraill yn ddiffygiol fel darpar ofalwyr, yn cael ei herio'n rheolaidd. Mae'r cymorth i ofalwyr o dan SGOs a gorchmynion trefniadau plant yn gwella, ac mae uwch reolwyr yn cydnabod bod anghenion gofalwyr a phlant yn aros yn uchel drwy gydol plentyndod.

Llysoedd teulu cyffuriau ac alcohol

Mae gan ddau o'r awdurdodau lleol yn yr archwiliad wasanaeth llys teulu cyffuriau ac alcohol (FDAC) lleol ar gyfer achosion lle mae camddefnyddio sylweddau gan y rhieni yn brif sbardun dros gychwyn achos. Defnyddiwyd y dull amgen hwn o ddatrys problemau o ran achosion gofal ar gyfer pedwar o blant (mewn tri theulu) ac ystyriwyd ond ni ddefnyddiwyd FDAC mewn dau achos arall yn un o'r awdurdodau lleol.

Dychwelodd ddau o'r pedwar o blant yn yr achosion FDAC i'w mam o dan orchymyn goruchwyllo, aeth trydydd (brawd neu chwaer un o'r rhain) i fyw gyda'i fam-gu/mam-gu o ochr y tad oherwydd ei (h)anghenion iechyd arbennig, ac aeth y pedwerydd plentyn i ofal maeth tymor hir, gyda chysylltiad parhaus â'i fam a chefnogaeth ei fam i'r lleoliad. Cofnodwyd sylwadau cadarnhaol ynglŷn â chynnydd y plant, gyda gwell iechyd meddwl wedi'i nodi ar gyfer dau ohonynt, a diagnosis iechyd a gwell lles ar gyfer trydydd. Roedd y tair mam wedi ymgysylltu'n dda â'u tîm arbenigol FDAC a'r barnwr. Nodwyd bod un yn parhau i gael cymorth gan yr FDAC ar ôl i'r achos ddod i ben, ac nid oedd yr un ohonynt wedi herio penderfyniad y llys.

Mae'r achosion, er gwaethaf y nifer fach ohonynt, yn cefnogi gwerth FDAC i blant hŷn yn ogystal â phlant iau.⁹

⁹ Mae bron chwarter (23%) o'r plant sy'n mynd trwy achos FDAC yn 10-17 oed. Mae'r gyfran hon yr un fath â phlant iau na 12 mis oed (22%) ar ddechrau achos (y Ganolfan Arloesedd Cyfiawnder 2021).

Y gwasanaeth cyfiawnder ieuencid

Fel y crybwyllwyd yn gynharach, un o nodau allweddol yr archwiliad oedd deall sut oedd gwahanol systemau neu rannau o system yn rhyngweithio. Gofynnem gwestiwn cyffredinol ynglŷn ag unrhyw ymwneud gan y plant a'r teuluoedd â'r system cyfiawnder ieuencid cyn achosion gofal. Gofynnem hefyd am wybodaeth benodol (o'r adeg cyn, yn ystod neu ar ôl achosion) ynglŷn ag arestio a/neu euogfarnau, defnydd o lety diogel am resymau nad oeddent yn ymwneud â lles, ac achosion llys ieuencid.

Canfuwyd gwybodaeth am ymwneud â chyfiawnder ieuencid ar gyfer 12 o'r 73 o blant (16%). Roedd y wybodaeth a gofnodwyd yn lleiafysmiol mewn perthynas â thri o'r plant hyn.

- Ymddangosodd ferch 13 oed, a oedd yn destun achos a ysgogwyd gan esgeulustod rhieni, yn y llys ieuencid wedi'i chyhuddo o ymosodiad cyffredinol ac fe'i hatgyfeiriwyd i'r gwasanaeth cyfiawnder ieuencid i'w rheoli allan o'r llys. Mae'r ffurflen archwilio'n nodi: 'Dim rhagor o fanylion wedi'u cofnodi'. Ar ôl yr achos, a'r plentyn bellach yn destun gorchymyn gofal, nodwyd gorchymyn atgyfeirio naw mis a gwaith cyfryngu ar y ffeil, sy'n awgrymu aildroseddu o natur fwy difrifol.
- Camfanteisiwyd ar fachgen 12 oed gan ei dad (a oedd â phroblemau camddefnyddio sylweddau), i ddwyn nwyddau y gallai eu gwerthu. Arestiwyd y bachgen am ddwyn ond ni chafodd ei euogfarnu. Gwnaeth y tîm troseddau ieuencid waith cymorth ataliol a dywedodd y plentyn ei fod yn edifar. Fe'i lleolwyd gyda pherthynas ac arweiniodd yr achos at SGO gyda'r teulu. Ni nodwyd unrhyw faterion pellach ar y ffeil.
- Roedd bachgen arall 12 oed yn ymwneud â gwaith un i un gyda'r gwasanaeth cyfiawnder ieuencid i fynd i'r afael â phryderon ynghylch camfanteisio troseddol. Ni chanfuwyd unrhyw fanylion eraill ar y ffeil.

Nid oedd gan y plant hyn broffil cyfiawnder ieuencid uchel, ac roedd gwaith ataliol yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau a amlygwyd. Mae'n bosibl nad oedd y ffurflenni archwilio'n cynrychioli ymyrraeth gynnar o'r math hwn gan yr heddlu a/neu'r gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yn ddigonol. Dywedwn hyn oherwydd daeth yn amlwg nad oedd ffordd rwydd i'r archwilwyr ddod o hyd i fwy na gwybodaeth sylfaenol iawn yng nghofnodion gwasanaethau plant am ymwneud gan y tîm troseddau ieuencid. Mae'r timau troseddau ieuencid yn cofnodi eu gwaith ar system ddata ar wahân.

Roedd yr wyth plentyn arall a oedd yn gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuencid yn ymwneud â throseddau mwy difrifol. Roeddent yn cynnwys, er enghraifft, y ddwy

set o frodyr y cyfeiriwyd atynt yn gynharach (gweler stori Zach a Mali, a stori Keith a Tom). O ran Zach a Mali, fe'u lleolwyd yn yr ystad ddiogel i bobl ifanc (mewn sefydliad troseddwr ifanc neu ganolfan hyfforddi ddiogel) o ganlyniad i droseddau difrifol. Gwrthdrowyd y cyhuddiad mwyaf difrifol, ond arweiniodd euogfarn am droseddau llai at orchymyn atgyfeirio ieuencid.

Ni chanfuwyd unrhyw wybodaeth arall am waith y system cyfiawnder ieuencid yng nghofnodion electronig y gwasanaethau plant.

Pam mae plant hŷn mewn achosion gofal? Archwiliad ar sail thema mewn pedwar awdurdod lleol.



Keith a Tom: rhyngweithio rhwng cyfiawnder ieuencid a gwasanaethau plant

Yn ystod gwaith cyn-achos, arestiwyd y brodyr Keith (15) a Tom (13) gyda'i gilydd am ddwyn. Mae'r ffurflen archwilio'n cynnwys cyfeiriad at nodyn ffeil achos ynglŷn ag ymwneud gan y tîm troseddau ieuencid a mechniaeth. Rhoddwyd Keith ar remánd i ofal maeth ac yna rhoddwyd gorchymyn atgyfeirio iddo, a oedd yn mynnu cyfarfodydd rheolaidd â'r tîm troseddau ieuencid. Cafodd y gwasanaethau plant rywfaent o gysylltiad â'r tîm troseddau ieuencid a chyda'r heddlu mewn awdurdod lleol arall ac roeddent yn ymwneud â sawl cyfarfod strategaeth. Mae nodiadau'r adolygiad plant sy'n derbyn gofal yn dweud nad oedd wedi mynd i'r llys fel oedd yn ofynnol, a arweiniodd at warant i'w arestio, gyda 22 o faterion eraill i'w hystyried. Roedd y tîm troseddau ieuencid yn paratoi adroddiad cyn-dedfryd ac mae'r achos gofal yn parhau.



Sabrina: mynd i'r afael â materion

Daeth Sabrina (14) i gysylltiad â'r heddlu ar ôl ymosod ar ei mam. Yn ddiweddarach, achosodd fân anafiadau i ferch iau a chafodd orchymyn datrys cymunedol tri mis, pryd y cafodd rywffaint o gymorth lleiafsymiol gan y tîm troseddau ieuencid. Wedi hynny, cafodd gymorth pellach am ei dieter a'i hymddygiad ymosodol ar ôl ymosod ar blentyn yn yr ysgol. Ni chafodd gyhuddiad ffurfiol. Oherwydd ei ffactorau risg, fe'i hatgyfeiriwyd i raglen gymunedol yr heddlu i'w helpu i wneud dewisiadau cadarnhaol a'i dargyfeirio oddi wrth ymddygiad troseddol. Adroddodd yr heddlu am anawsterau wrth ymgysylltu â hi ac ni ymunodd â'r rhaglen.

Mae sylwadau testun rhydd gan yr archwilydd yn dweud bod hyn i gyd wedi digwydd 'yn erbyn cefndir o gamdriniaeth, colled a gwrthodiad ailadroddol', a heb ddigon o bwyslais ar naill ai ddiogelu y tu allan i'r teulu na pherthynas doredig Sabrina â'i mam.

Nodyn ynghylch rhieni yn y system cyfiawnder troseddol

O ran naw o blant yn yr archwiliad, cofnodwyd gwybodaeth am ymwneud gan riant neu rieni â'r system cyfiawnder troseddol.

Roedd y manylion hyn yn ymwneud â:


- thad a fu yn y carchar yn flaenorol ac a ddychwelodd i'r carchar yn ystod yr achos
- pâr o rieni a oedd yn destun ymchwiliad ynglŷn â gweithgarwch troseddol/cyflenwi cyffuriau
- tri thad a oedd yn destun ymchwiliad, neu'n cael eu rhoi ar brawf, am droseddau rhywiol yn erbyn eu plentyn neu bartner
- mam a oedd, ar ôl cael ei rhyddhau o'r carchar, wedi ailddechrau gofalu am ei phlentyn a fu'n derbyn gofal gan aelod o'r teulu yn ystod ei dedfryd pum mlynedd. Yna cychwynwyd achos newydd. Mae'r ffeil yn nodi diffyg cynllun rhyddhau o'r carchar wedi'i arwain gan y gwasanaethau plant a diffyg sylw i anghenion y fam ar ôl cael ei rhyddhau, gan gynnwys ymdopi â cholli ei phlentyn am yr eildro.

Roedd enghraifft hefyd o wasanaethau prawf a gwasanaethau plant yn cydweithio i gynorthwyo tad i ailddechrau gofalu am ei blant.

Gwasanaethau addysg

Nid oedd y ffurflen archwilio'n cynnwys cwestiynau penodol am rôl neu waith gwasanaethau addysg mewn perthynas â phlant a theuluoedd. Roedd yn cynnwys newidynnau ynglŷn â materion addysgol (gweler Ffigur 9), ac roedd hefyd yn holi ynghylch cynnydd ar ôl diwedd achos, gan gyfeirio'n benodol at yr ysgol yn ogystal ag agweddau eraill ar fywyd.

Ffigur 9: Cryfderau a ffactorau risg yn yr ysgol



Rhoddwyd amryw resymau dros anawsterau plant mewn addysg:

- **anhapusrwydd y plentyn** ynglŷn â chael ei roi mewn ysgol wahanol i frawd neu chwaer; casáu ysgol arbennig a waethgwyd gan ymosodiad corfforol gan ddisgyblion eraill; ac anghenion emosiynol a oedd yn rhwystro'r plentyn rhag dysgu a chyflawni
- **gorbryder y plentyn** ynglŷn â bod yn yr ysgol a newidiadau i arferion dyddiol, gan arwain at byliau swnllyd yn yr ystafell ddosbarth
- **symud ysgol** o ganlyniad i symud cartref; neu ddechrau cyfnod gofal newydd a oedd yn golygu newid lleoliad ac ysgol; a newid ysgol sawl gwaith tra bod plentyn mewn gofal yn ymdopi â phontio i'r ysgol uwchradd
- **gwaharddiad** yn dilyn pwl emosiynol yn ymwneud â bod mewn gofal; am feddu ar gyllell; am feddu ar ganabis
- **cyfleoedd a gollwyd** fel diffyg ymgysylltu rhwng yr ysgol a'r rhieni; diffyg sylw i absenoldeb arferion dyddiol a ffiniau gartref; plant yn syrthio'n ôl oherwydd colli'r ysgol, rhai am gyfnodau hir.¹⁰

10 Mae ffurflenni awdurdodau lleol yn dangos, yn 2017/18, bod 11% o blant mewn gofal wedi mynd ar goll, a bod 65% wedi mynd ar goll fwy nag unwaith. Mae dadansoddi cyfweiliadau ar ôl dychwelyd yn awgrymu bod y cyfnodau o fynd ar goll o ganlyniad i amheuan ynghylch camfanteisio rhywiol ar gyfer 4% o'r plant, a throseddu ar gyfer 2% (Coram 2019).

Mewn cyferbyniad, roedd achosion o'r **ysgol fel ffactor cadarnhaol** yn cynnwys:

- **yr ysgol yn cael ei hystyried yn noddfa** lle'r oedd y plentyn yn gallu siarad am faterion gartref gyda'r staff; roedd y plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol
- **lefel uchel o gymorth i'r plentyn** – gan gefnogi anawsterau emosiynol a/ neu ymddygiad; help gan gwnselydd yr ysgol; cymorth dwys a diddordeb a ddangoswyd gan staff mewn llety diogel
- **lefel uchel o gymorth i famau** – roedd diagnosis o anghenion y plentyn a symud i'r ysgol iawn wedi galluogi'r fam i ennill hyder yn ei gallu i ymdopi; roedd cymorth tosturiol gan weithiwr cymdeithasol newydd wedi galluogi'r fam i ymgysylltu â'r ysgol
- **rhoi hwb i gynnydd** – roedd hunangymhelliad y plentyn yn golygu bod addysg yn cael ei gwerthfawrogi fel pasbort i gyfleoedd eraill; roedd cyflawniadau addysgol yn helpu'r plentyn i oresgyn trawma blaenorol; roedd hoffter y plentyn o chwaraeon wedi cael ei hybu gan gyfleoedd chwaraeon allgyrsiol
- **gweithredu mewn partneriaeth** – roedd y ffaith bod yr ysgol wedi atgyfeirio pryderon i'r gwasanaethau plant yn gynnar wedi helpu i gynyddu dealltwriaeth o brofiadau blaenorol y plentyn; roedd addysg yn rhan o gynllun ymyrraeth ddwys ddyddiol i alluogi'r plentyn i aros gartref yn ddiogel, gan gynnwys tiwtora gartref a arweiniodd at ymwneud â darpariaeth allan o'r cartref
- **parhad** ysgol a rhwydwaith ffrindiau yn ystod cyfnod o aflonyddu teuluol a gofid.

Gwnaethom sylwi na soniwyd am wasanaethau lles addysg yn y ffurflenni archwilio, heblaw am un cyfeiriad at fam a erlynwyd oherwydd bod ei phlant yn colli'r ysgol.

Gwasanaethau iechyd a lles

Roedd y cwestiwn archwilio am gynnydd canfyddedig ar ôl achosion yn gwahodd sylwadau ynglŷn ag iechyd a lles plant. Yn ogystal, roedd sawl newidyn ar y ffurflen yn ymwneud ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a rhieni cyn ac yn ystod achosion.

Roedd rhai anghenion iechyd (ar gyfer plant ar draws yr ystod oedran) wedi cael eu hamlygu dim ond ar ôl i achosion ddechrau ac ar ôl i'r plant fod mewn gofal. Digwyddodd hyn mewn achosion ar wahân yn ymwneud ag amrywiaeth o anawsterau fel ADHD, awtistiaeth, anhwylder cysgu, syndrom straen wedi trawma (PTSS) a thrawma cymhleth.

Crybwyllwyd trawma mewn cofnodion ar gyfer ychydig dros hanner y plant o un awdurdod lleol. Roedd y materion yn cynnwys gweld ymosodiad rhywiol treisgar, profedigaeth, peidio â chael eu credu wrth roi gwybod am gamdriniaeth gan berthynas, camddefnyddio sylweddau gan rieni, camdriniaeth emosiynol, ac amlygiad i wrthdaro rhieni.

Roedd plant ym mhob awdurdod lleol wedi gweld cam-drin domestig gan rieni, iechyd meddwl gwael un rhiant neu'r ddau, camddefnyddio sylweddau gan rieni, a/ neu sefyllfaoedd eraill o drawma blaenorol neu barhaus. Roedd sylwadau testun rhydd yn dangos effaith hyn ar iechyd meddwl a lles emosiynol plant. Roedd hyn yn cynnwys gorbryder, hwyliau isel, diffyg hunan-barch, ymlyniadau ansicr, bygwth hunan-niweidio a niweidio pobl eraill, meddyliau hunanladdol, a theimladau cryf o golled a thrawma.

Ymatebion i anghenion iechyd a lles

Roedd yr ymatebion i'r archwiliad yn dangos bod rhai plant yn amharod neu'n anfodlon derbyn cynigion o gymorth gan CAMHS a gwasanaethau eraill. Ni roddwyd y rhesymau. Yn bennaf, fodd bynnag, roedd y rhai hynny a gafodd gymorth wedi dechrau gwneud rhywfaint o gynnydd wrth ddelio â'u profiadau presennol neu flaenorol.

Roedd y math o ddarpariaeth yn amrywio. Cynorthwywyd rhai plant i archwilio eu teimladau mewn ffyrdd creadigol, megis trwy gyfansoddi caneuon, chwaraeon a

gofalu am anifeiliaid. Cafodd rhai wasanaeth arbenigol, megis ar gyfer enwresis neu brofedigaeth. Rhoddwyd cymorth arall i ofalwyr maeth neu ofalwyr sy'n berthnasau neu staff preswyl, gan gynnwys seicoleg glinigol, cynllunio ar gyfer pontio cyn newid lleoliad, therapi teulu/therapiau eraill penodol, hyfforddiant ar gyfryngu, a hyfforddiant ar fagu plant.

Yn gyffredinol, roedd pwyslais amlwg ar arferion wedi'u llywio gan drawma, sy'n cyd-fynd yn dda â'r diddordeb sy'n tyfu yn y model hwn a'r defnydd cynyddol ohono, a chefnogaeth ryngwladol i hawl plentyn i gael cymorth i oresgyn trawma.¹¹

Canfuom enghreifftiau o asiantaethau'n cydweithio ar draws ffiniau traddodiadol i fynd i'r afael â thrawma, ac enghreifftiau o'r hyn yr oedd yr awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan yn ystyried eu bod yn ddulliau llwyddiannus o weithio mewn partneriaeth â phlant hŷn a'u teuluoedd. Roedd y rhain yn ymwneud â gwneud amser ar gyfer gwaith uniongyrchol gyda phlant ac aelodau eraill o'r teulu, annog diddordebau a doniau plant, ac adeiladu ar gryfderau a chyflawniadau rhieni ac eraill sy'n agos at blentyn. Roedd arddull a chynnwys gwaith yn bwysig hefyd: ystyriwyd bod plant a rhieni'n gwerthfawrogi bod yn anwrthdrawiadol, yn gyson ac yn ddyfal, ac felly hefyd gwaith a oedd wedi'i seilio ar arferion adferol ac wedi'u llywio gan drawma, a gyflwynwyd gyda dyngarwch a pharch.

11 Gweler, er enghraifft, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 39 (adfer o drawma ac ailintegreiddio).

Myfyrdodau

Amlygodd ein hastudiaeth 73 o blant hŷn a oedd yn wynebu gwahanu wedi'i orchymyn gan y llys o 49 o deuluoedd mewn pedwar awdurdod lleol. Roeddent i gyd wedi dioddef trawma blaenorol a pharhaus, a heb y cymorth iawn ar waith, maen nhw'n wynebu dyfodol ansicr. Yn anffodus, bydd eu straeon yn hen gyfarwydd i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd mewn amgylchiadau tebyg ledled y wlad.

Roedd yr ymarfer archwilio a gydlynwyd gennym yn waith cydweithredol gyda'r awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan. Fe'i dyluniwyd i gynyddu ein dealltwriaeth o'r canlynol:

- y pryderon, o fewn y teulu a'r tu allan i'r teulu, a ddaeth â'r plant i achosion gofal
- penderfyniadau'r llys a chynlluniau'r awdurdodau lleol ar gyfer y plant
- y rhyng-gysylltiad rhwng systemau a gwasanaethau cyfiawnder teuluol a chyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys y defnydd o bwerau i amddifadu plant o'u rhyddid
- heriau a chyflawniadau wrth ymateb yn dda i gryfderau ac anghenion plant a theuluoedd.

Yn ogystal, rhoddodd y gwaith ar y cyd gyfle i ni ddysgu am ofynion polisi ac ymarfer lleol, a chasglu safbwyntiau ymarferwyr a rheolwyr profiadol ynglŷn â beth arall y gellid ei wneud, neu beth y gellid ei wneud yn wahanol, i helpu plant a theuluoedd mewn amgylchiadau tebyg yn y dyfodol.

Canfyddiadau allweddol

Yn gyntaf, ynglŷn â'r pryderon a arweiniodd at achosion

Mae'r archwiliad yn rhoi darlun mwy cynnil na phlant sy'n destun achos oherwydd **naill ai** niwed o fewn y teulu **neu** niwed y tu allan i'r teulu. Er bod chwarter o'r garfan mewn perygl o gamfanteisio troseddol a/neu rywiol y tu allan i'w teulu – ar hyd continwmm o bryderon diogelu isel i uchel – at ei gilydd, roedd y risgiau hyn yn bresennol **yn ychwanegol at** ffactorau risg ac anawsterau teuluol eraill.

Roedd pryderon o fewn y teulu yn ymwneud â rhieni'n cael trafferth ymdopi ag effaith hirsefydlog camddefnyddio sylweddau, anghenion iechyd meddwl a chamdrin domestig, ochr yn ochr â phrofiadau eraill blaenorol neu barhaus o wrthodiad a cholled. Ategwyd hyn i gyd gan effaith wanhaol tlodi hirsefydlog, caledi ac anfantais.

I rai plant a rhieni (19 o blant o 15 o deuluoedd), achosion ailadroddol oedd y rhain, gyda phryderon tebyg neu wahanol yn sbarduno'r dychweliad i'r llys rhwng dwy a deuddeng mlynedd ar ôl yr achos cyntaf. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, roedd yr achos cyntaf wedi diweddu mewn gorchymyn goruchwyllo i un rhiant neu'r ddau.

Yn ail, ynglŷn â phenderfyniadau'r llys a chynlluniau gofal awdurdodau lleol

Ein canfyddiadau cryno oedd bod mwyafrif y plant wedi aros mewn gofal ar ddiwedd achosion. Roedd y rhan fwyaf mewn trefniadau maethu neu ofal gan berthynas, ac roedd ambell un mewn lleoliad preswyl.

Nid oedd tua thraean o'r plant wedi aros mewn gofal ar ddiwedd yr achos. Aethant i fyw gyda'u rhieni neu berthnasau eraill, o dan orchymyn llys y bwriadwyd iddo gefnogi a chryfhau eu diogelwch, ac mewn rhai achosion, o bosibl, monitro'r sefyllfa.

Er ei bod yn ddyddiau cynnar, o ran y rhan fwyaf o'r plant a oedd yn aros mewn gofal, ymddangosai mai'r hyn a oedd yn cynnig y cymorth gorau i wneud cynnydd oedd lleoliad a oedd yn cyfateb i'w hanghenion, yn meithrin ymgysylltiad ag addysg, yn cynnig cymorth therapiwtig os oedd ei angen, ac yn hybu perthynas gadarnhaol â'u teulu a gweithwyr proffesiynol.

Roedd nifer lai o blant, o dri o'r pedwar awdurdod lleol, wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Roedd hyn trwy orchymyn llys ar gyfer llety diogel am resymau lles neu gyfiawnder ieuencid, trwy orchymyn o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys i'w hamddifadu o'u rhyddid os nad oedd lle ar gael mewn cartref diogel, neu drwy eu rhoi

mewn lleoliad seiciatrig trwy orchymyn neu dderbyn yn wirfoddol am driniaeth ar gyfer anghenion iechyd meddwl difrifol. Roedd yn amlwg bod gan y grŵp hwn o blant yr anawsterau mwyaf, a bod arnynt angen cymorth dwys ac ar unwaith er mwyn eu diogelwch eu hunain a/neu amddiffyn pobl eraill.

Yn drydydd, ynglŷn â'r rhyng-gysylltiad rhwng cyfiawnder teuluol a chyfiawnder ieuencid

Canfu'r archwilwyr yn yr awdurdodau lleol wybodaeth am ymwneud â'r system cyfiawnder ieuencid wedi'i chofnodi ar ffeiliau 12 o'r 73 o blant (16%). Roedd y rheswm dros yr ymwneud yn amrywio o fân ladrad i ymosodiad. Daethom i'r casgliad efallai nad oedd y ffurflenni archwilio'n cynrychioli ymyrraeth gynnar gan yr heddlu a/neu wasanaethau cyfiawnder ieuencid yn ddigonol oherwydd bod y systemau'n ddigyswllt, gyda systemau cofnodi gwahanol. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau eraill sy'n dod i'r amlwg ynglŷn ag effaith systemau lleol sy'n gweithredu ar wahân (gweler, er enghraifft, Fitzpatrick et al. 2019; Munby 2017).

I'r gwrthwyneb, mae'n werth nodi sut gellid mynd i'r afael â'r datgysylltiad hwn, fel yr esboniwyd yn y dyfarniad 'rhagorol' diweddar ar gyfer Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Brighton a Hove. Mae'r adroddiad arolygu'n pwysleisio pwysigrwydd trefniadau dibynadwy, o ansawdd uchel ar gyfer cyfnewid gwybodaeth i sicrhau cydlynid rhwng cyfiawnder ieuencid ac amddiffyn plant a chynllunio gofal (Arolygiaeth Prawf EM 2021). Er mwyn darparu ymateb cynhwysfawr, daethpwyd â thimau allweddol yn Brighton a Hove at ei gilydd yn 2018 i greu gwasanaeth glasoed wedi'i gydleoli.

Ac yn bedwerydd, ynglŷn â heriau a chyflawniadau ymateb yn dda i blant a'u teuluoedd

Roedd y cyfuniad o'r wybodaeth gyfoethog ar y ffurflenni archwilio – gwybodaeth feintiol ac ansoddol – a thrafodaethau ag uwch ymarferwyr a rheolwyr yr awdurdodau lleol, wedi rhoi digon o ddealltwriaeth i ni o'r hyn sy'n ddefnyddiol i weithwyr proffesiynol ac maen nhw eisiau parhau i allu ei ddarparu. Roedd hyn yn cynnwys cymorth rhagweithiol i rieni cyn gynted â phosibl mewn bywyd plentyn neu cyn gynted ag y daw arwyddion i'r amlwg bod rhywbeth o'i le. Gwerthfawrogwyd hefyd gymorth arweinyddiaeth gan bobl ymroddedig a chreadigol sy'n rhoi neges gref i staff fod plant yn cael eu helpu orau gan y bobl sydd agosaf atynt, yn gyffredinol, bod rhieni eisiau'r gorau i'w plant fel arfer, a bod darparu'r cymorth iawn i rieni i ddelio â'u hanawsterau eu hunain yn gallu bod yn allweddol i ddatgloi eu gallu i helpu plant i ymdopi a ffynnu, boed hynny gartref, mewn gofal, neu mewn lleoliad diogel.

Ar yr ochr negyddol, gwelsom dystiolaeth o fethiant i ymateb â gofal a dyngarwch i amgylchiadau ac anghenion rhai plant a theluoedd. Ni all fod yn iawn bod angen newid gweithiwr cymdeithasol er mwyn i fam ag anawsterau dysgu gael y gefnogaeth empathetig a'r cymorth ymarferol sy'n angenrheidiol, o'r diwedd, i hybu ei hyder ei hun a hyder gweithwyr proffesiynol yn ei gallu i fagu plant. Na bod bachgen a drawmateiddiwyd gan ei brofiadau mewn bywyd cyn gofal yn cael ei drawmateiddio ymhellach gan yr hyn sy'n digwydd iddo mewn gofal. Na'r ffaith nad oeddem wedi canfod llawer o dystiolaeth yn y ffeiliau bod aelodau teuluoedd yn cael eu cynorthwyo i gydnabod ac ailadeiladu perthnasoedd toredig y bydd plant yn elwa ohonynt yn ddiweddarach mewn bywyd. Na bod ysgolion, sy'n bartneriaid yn y system ddiogelu leol ar gyfer plant, yn gallu gwahardd y plant y mae angen eu hamddiffyn a'u cynorthwyo fwyaf, gan eu gwrthod unwaith yn rhagor, i bob pwrpas, ar ben y gwrthodiadau a brofwyd eisoes.

Ac, yn yr amgylchiadau mwyaf eithafol, ni all fod yn iawn bod yr ymdrech ofer i ddod o hyd i wely i blentyn y mae angen ei amddiffyn rhag niweidio ei hun neu bobl eraill yn diweddu mewn gorchymyn gan yr Uchel Lys sy'n ei amddifadu o'i ryddid ac eto'n dal i'w adael heb loches ddiogel. Yn anffodus, nid yw'r profiad hwn yn unigryw ac mae'n parhau: noder y dyfarniad yng nghanol mis Mehefin 2021 pan wrthododd y barnwr awdurdodi amddifadu plentyn 12 oed o'i ryddid, i'w gadw dan glo mewn ward ysbyty pediatrig, oherwydd bod hynny'n amhriodol, yn niweidiol ac yn groes i hawliau dynol y plentyn.¹² Gorffennodd y barnwr ei ddyfarniad trwy ddweud:

Mae pawb sy'n gysylltiedig wedi gwneud eu gorau glas mewn sefyllfa sydd wedi bod bron yn amhosibl ei thrin. I'r graddau bod bai i'w briodoli, mae'n rhaid iddo gael ei ysgwyddo gan y rhai hynny nad ydynt wedi gwneud y ddarpariaeth sy'n ofynnol i fynd i'r afael ag anghenion plant agored iawn i niwed fel Y [Wigan Borough Council v Y (2021) EWHC 1982 (Fam)].

12 Gweler, er enghraifft, Munby (2018), sy'n ystyried y gorgyffyrddiad rhwng cyfiawnder teuluol a chyfiawnder ieuenctid, y cysyniad o ddull llys datrys problemau ar gyfer pobl ifanc sydd mewn trafferth, a'r hyn a ddisgrifiwyd fel 'sgandal ... cwbl gywilyddus' diffyg darpariaeth breswyl i blant cythryblus. Gweler hefyd yr adroddiad diweddar gan Ofsted ynglŷn â phrinder a dosbarthiad annigonol cyfleusterau llety diogel (Preston 2021).

Yr archwiliad mewn cyd-destun

Diogelu plant rhag niwed o fewn eu teulu neu'r tu allan iddo, ar yr un pryd â hyrwyddo eu gofal diogel a'u hawl i fywyd teuluol, yw pryder beunyddiol systemau diogelu lleol a chenedlaethol. Mae ymdrechion i wneud gwelliannau i'w gweld yn amlwg mewn adroddiadau niferus a rhestrau hir o argymhellion dros flynyddoedd lawer. Yn ystod y misoedd a dreuliwyd yn gweithio ar y prosiect hwn, prin yr aeth ddiwrnod heibio heb fod ein sylw'n cael ei dynnu at astudiaeth newydd arall, canfyddiad newydd arall, ongl newydd arall o ddiddordeb.

Roedd adolygu'r corff helaeth a chynyddol hwn o lenyddiaeth y tu hwnt i'n briff, ond mae tair astudiaeth ddiweddar wedi bod o ddiddordeb arbennig i ni. Yr un gyntaf yw'r adolygiad ar sail thema o 60 o bobl ifanc agored i niwed gan Fwrdd Diogelu Plant Croydon, yn sgil marwolaeth dreisgar tri bachgen yn eu harddegau yr oedd teuluoedd pob un ohonynt wedi bod yn ymwneud â gwasanaethau plant ar hyd eu hoes (Spencer, Griffin, a Floyd 2019). Mae'r ail yn ymchwiliad i'r sbardunau dros droseddau a chamfanteisio ar gyfer 13 o blant gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent (2019). Mae'r drydedd yn waith ymchwil ynglŷn ag effaith adfyd, camdriniaeth, colled a thrawma ar 80 o blant sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuencid, a gynhaliwyd ar gyfer Awdurdod Cyfunol Gorllewin Canolbarth Lloegr a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gorllewin Canolbarth Lloegr (Awdurdod Cyfunol Gorllewin Canolbarth Lloegr 2021).

Mae themâu a chanfyddiadau'r tair astudiaeth hyn, a gynhaliwyd mewn ardaloedd o Gymru a Lloegr a oedd yn wahanol i'r rhai yr oeddem ni'n gweithio ynddynt, yn debyg iawn i'r negeseuon sy'n dod o'n harchwiliad a'n dadansoddiad. Mae ein canfyddiadau hefyd yn adleisio canfyddiadau adolygiad cenedlaethol y Panel Adolygu Arferion Diogelu Plant o ddiogelu plant sydd mewn perygl o gamfanteisio troseddol (Hawlfraint y Goron 2020), a chanlyniadau dadansoddiad ffeiliau achos Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield o garfan debyg o blant 10–17 oed a oedd yn ymwneud ag achosion gofal a glywyd yn Llys Teulu Dwyrain Llundain (Roe, Ryan, a Rehill 2021).

Mae'r archwiliad wedi canolbwyntio ar broblemau, sy'n aml yn gymhleth a hirsefydlog, teuluoedd â phlant hŷn a oedd yn destun achos gofal mewn pedwar awdurdod lleol mewn un flwyddyn. Fel y cyfryw, mae'n rhoi cipolwg ar fywydau rhai plant a theuluoedd wrth iddynt fynd trwy achosion, ond nid yw'n ymdrin â phlant o'r un oedran sydd mewn angen, yn destun cynlluniau amddiffyn plant neu eisoes mewn gofal – na'u rhieni, brodyr neu chwiorydd a pherthnasau.

Wrth fyfyrto ar ein hastudiaeth, ac yn erbyn cefndir canfyddiadau tebyg ynglŷn â phlant a theuluoedd mewn rhannau eraill o Gymru a Lloegr, gorffennwn drwy erfyn yn gryf am roi sylw i dri phryder penodol.

Mae'n rhaid gwneud mwy na chynnal y sefyllfa bresennol

- Mae'n rhaid i ni greu ac achub ar gyfleoedd i helpu plant yn wahanol, trwy roi sylw'n gynharach i'r anawsterau sy'n wynebu'r rhai sydd agosaf atynt. Mae hyn yn cynnwys pwyslais o'r newydd ar fynd i'r afael ag anghenion rhieni cyn gynted â'u bod yn codi, a gwneud hynny o safbwynt y teulu, a chyda mwy o ddealltwriaeth ar draws pob gwasanaeth o drawma cymhleth a'i effaith ar sut mae pobl yn ymateb pan fyddant yn teimlo dan fygythiad ac mewn trallod. Mae anghenion allweddol rhieni a amlygwyd yn ein hastudiaeth yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, iechyd meddwl gwael, a thlodi ac anfantais sylfaenol. Mae cymorth parhaus i rieni ar ôl achos gofal, p'un a yw'r plant dan sylw'n dychwelyd adref neu'n aros mewn gofal, yn hanfodol. O ran y cyntaf, o ystyried y gyfradd uchel o achosion sy'n dychwelyd i'r llys, bydd cymorth awdurdodau lleol ar gyfer gorchmynion goruchwyllo yn werthfawr iawn. Canmolwn yr arfer mewn rhai ardaloedd o ddefnyddio swyddogion adolygu annibynnol i adolygu cynnydd yn yr achosion hyn.
- Mae'n rhaid i ni weithredu'n gynt yn hytrach na'n hwyrach. Un enghraifft yw bod yn barod i fynd ag achosion i'r llys pan fydd arwyddion clir bod pethau'n debygol o barhau i waethygu. Dangosir un arall gan weithredoedd mentrus gweithwyr proffesiynol yn yr achos a welwyd yn yr archwiliad o fachgen nad oedd yn elwa o leoliadau mewn gofal; gwnaethant ei dychwelyd adref a rhoi cymorth dwys iddo ef a'i rieni o'r fan honno yn lle hynny.
- Mewn modd tebyg, mae cryfhau'r cymorth i blant agored i niwed ym Mlynnyddoedd 5 a 6, cyn iddynt symud i'r ysgol uwchradd, yn debygol o fod â siawns well o helpu plant i reoli ymddygiadau cymhleth a datrys anawsterau'n gynharach.
- Yn ogystal, byddai cysylltiadau cynharach rhwng gwasanaethau plant a'r system cyfiawnder ieuencid yn helpu i greu timau cryfach a chefnogol o amgylch plant agored i niwed a'u teuluoedd. Byddai cysylltiadau defnyddiol yn ymwneud â phobl, systemau cofnodi ac olrhain achosion asiantaethau, a chyfleoedd trawsasiantaethol i fyfyrion ar waith ar y cyd gyda phlant, pobl ifanc ac aelodau o deuluoedd unigol.
- Er bod corff calonogol a chynyddol o waith ar y materion hyn, nid oes, hyd y gwyddom ni, adolygiad llenyddiaeth sy'n canolbwyntio ar y materion penodol sy'n berthnasol i blant a theuluoedd mewn systemau a gwasanaethau cyfiawnder teuluol a chyfiawnder ieuencid sy'n gorgyffwrdd ond sydd ar wahân (ac weithiau wedi'u harwahanu. Argymhellwn adolygiad o dystiolaeth ymchwil ynglŷn â'r maes hwn a fyddai'n cael ei dderbyn fel barn gyffredinol am ein gwybodaeth bresennol.

Darparu noddfeydd

- Mae'n rhaid i ni benderfynu sicrhau darpariaeth addas i blant hŷn ag anawsterau cymhleth y mae angen iddynt fod mewn gofal. Roedd yn amlwg o'r archwiliad bod staff a rheolwyr yn aml yn cael trafferth dod o hyd i leoliadau digonol a phriodol i'r plant mwyaf agored i niwed, gyda goblygiadau difrifol i'w diogelwch a'u datblygiad. Mae'r mater hwn – a rhwystredigaeth ymarferwyr, plant a theuluoedd – wedi ein hwynebu ers rhy hir. Yn eu rôl rhianta corfforaethol, mae angen sicrhau bod cartrefi lleol arbenigol, diogel, bach ar gael i awdurdodau lleol lle y gall pobl ifanc gael cymorth therapiwtig, wedi'i lywio gan drawma.
- Rydym wedi gweld o'r archwiliad bod yr ysgol yn gallu bod yn noddfa i rai plant, yn ogystal ag adnodd gwerthfawr i rai rhieni. Felly, dylem osgoi colli'r posibilrwydd y bydd rhywun neu rywbeth am yr ysgol yn 'goleuo'r ffordd' i blentyn mewn gofid. O ystyried ein bod yn gwybod bod absenoldeb o'r ysgol yn gwneud plant yn fwy agored i gamfanteisio, enwedig pan fydd yn cyd-fynd â mynd ar goll o gartref a chysylltu â chyfoedion sy'n ymwneud ag ymddygiad peryglus, mae'n rhaid i ni gymryd camau pendant i herio polisi ac arferion ynglŷn â gwahardd o'r ysgol.
- Croesawn adolygiad y llywodraeth o bolisiau ysgol ynglŷn ag ymddygiad a gwahardd yn barhaol y bwriedir ei gynnal yn ddiweddarach eleni. Tra'n disgwyl yr adolygiad, cynigiwn y dylai ysgolion orfod cynnull cynhadledd amlasiantaethol os ydynt yn bwriadu gwahardd plentyn. Dylai fod yn ofynnol i'r gynhadledd ystyried yr effaith y bydd unrhyw waharddiad o'r fath yn ei chael ar berygl plentyn o niwed y tu allan i'r teulu. Dylai hefyd ystyried yr effaith bosibl ar y plentyn os bydd yr ysgol yn ei wrthod yn bendant, a hynny fwy na thebyg ar ben wrthodiad cynharach gan eraill.
- Darparodd llety diogel noddfa i rai plant am gyfnod byr. Rhoddwyd sylwadau cadarnhaol ar y ffurflenni archwilio ynglŷn â phobl ifanc a ddaliwyd yn yr ystad ddiogel i bobl ifanc yn dal i fyny ag addysg a gollwyd, yn ymwneud â gweithgareddau a rhaglenni hunanddatblygiad, yn cael cymorth gwresog gan staff, ac yn cael cymorth therapiwtig ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.
- Nodwn a chroesawn yr ymrwymiad gan yr ystad ddiogel i bobl ifanc, a'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn y gymuned, i ffordd o weithio sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf (Cordis Bright 2017).

Cynnal y llinell fywyd

- Dylid osgoi clystyrau eraill o ffactorau risg niwed y tu allan i'r teulu hefyd. Mae un o'r rhai allweddol yn ymwneud â cholledion sy'n deillio o berthnasoedd gwan neu wael, gwahanu, profedigaeth a digwyddiadau neu amgylchiadau trawmatig eraill. Mae'n dilyn, felly, mai un o'r prif flaenoriaethau wrth gynorthwyo plant yw ymdrech ar y cyd i unioni a chynnal perthnasoedd sydd eisoes yn bodoli fel bod plant yn cadw cynifer o gysylltiadau â phosibl â phobl sy'n eu caru, ac fel eu bod yn cael y cymorth gorau posibl i adfer perthnasoedd ingol a thoredig â'u rhieni, eu brodyr a'u chwiorydd, a pherthnasau eraill. Yn ogystal, mae'n fuddiol os yw gweithwyr proffesiynol yn chwilfrydig ynglŷn â chysylltiadau coll ac yn archwilio'r hyn y gallent ei gynnig yn ddiwyd.
- Roedd rhai o'r plant yn yr archwiliad yn amlwg yn teimlo rhyddhad o fod mewn gofal, o gael lleihau'r baich yr oedden nhw, hefyd, wedi bod yn cael trafferth ymdopi ag ef, yn aml dros gyfnod hir ac anhapus. Ond gwelsom hefyd sut oedd rhai o'r rhain (a phlant eraill a oedd yn cael eu derbyn i ofal), serch hynny, yn cael eu tynnu'n ôl i'r fan a oedd yn gartref a'r bobl a oedd yn deulu. Roeddent eisiau bod mewn cysylltiad, ac roedd angen iddyn nhw a'u rhieni gael cymorth i ddeall ac ymdopi â'r tensiynau, yr emosiynau, y risgiau a'r buddion a oedd yn gysylltiedig.
- Amlygodd yr archwiliad arferion llwyddiannus FGCs a chyfarfodydd teuluol eraill i wneud penderfyniadau, a'r gwerth ychwanegol a geir wrth i'r gwaith hwnnw gael ei arwain, ei sbarduno a'i gefnogi gan bolisïau asiantaeth ac arweinyddiaeth gref sy'n adlewyrchu ymrwymiad i ddull sy'n cynnwys y teulu. Argymhellwn fod y model gwaith hwn yn parhau i gael ei hyrwyddo a'i gefnogi.

Rhestr achosion

Wigan Borough Council v Y (2021) EWHC 1982 (Fam)

Rhestr cyfeiriadau

Arolygiaeth Prawf EM. (2021). *An inspection of youth offending services in Brighton and Hove*. Ar gael o: <https://www.justiceinspectrates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2021/07/Brighton-and-Hove-YOS-inspection-report-v1.0.pdf>

Awdurdod Cyfunol Canolbarth Gorllewin Lloegr. (2021). *Punishing abuse. Children in the West Midlands Criminal Justice System*. Ar gael o: <https://www.wmca.org.uk/media/4678/punishing-abuse.pdf>

Booth, T. (2000) Parents with Learning Difficulties, Child Protection and the Courts, *Representing Children* 13(3): 175-188.

Ganolfan Arloesedd Cyfiawnder. (2021). *National FDAC Monitoring Report: January-March 2021*. Llundain: Y Ganolfan Arloesedd Cyfiawnder. Ar gael o'r Ganolfan Arloesedd Cyfiawnder ar gais.

Cenhedloedd Unedig. (1989). *Y confensiwn ar hawliau'r plentyn*. Penderfyniad 44/25 y Cynulliad Cyffredinol. Ar gael o: https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf

Coram (2019). Missing looked after children. Mawrth 26. *Coram-i*. [ar-lein] [Cyrchwyd 19 Awst 2021] Ar gael o: <https://coram-i.org.uk/missing-looked-after-children/>

Cordis Bright. (2017). *Evaluation of the Enhanced Case Management approach: final report*. Ar gael o: <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-enhanced-case-managementapproach/?lang=en>

Firmin, C., Wroe, L., a Lloyd, J. (2019). *Safeguarding and exploitation: complex, contextual and holistic approaches*. Ar gael o: <https://www.researchinpractice.org.uk/children/publications/2019/may/safeguarding-and-exploitation-complex-contextual-and-holistic-approaches-strategic-briefing-2019/>

Fitzpatrick, C., Hunter, K., Staines, J., a Shaw, J. (2019). Exploring the pathways between care and custody for girls and women: a literature review. Llundain: Sefydliad Nuffield.

Grŵp Hawliau'r Teulu. (2018). *Care crisis review. Options for change*. Llundain: Y Grŵp Hawliau'r Teulu. Ar gael o: <https://frg.org.uk/wp-content/uploads/2021/04/Care-Crisis-Review-Options-for-change-report.pdf>

Harwin, J., Alrouh, B., Golding, L., McQuarrie, T., Broadhurst, K. a Cusworth, L. (2019). *The contribution of supervision orders and special guardianship to children's lives and family justice*. Caerhirfryn: Y Ganolfan Ymchwil Plant a Theuluoedd a Phrifysgol Caerhirfryn.

Hawlfraint y Goron (2020). It was hard to escape: Safeguarding children at risk of criminal exploitation. Llundain: Y Panel Adolygu Arferion Diogelu Plant.

Munby, J. (2017). *Children across the justice systems* [darlith]. Darlith 2017 Parmoor i Gynghair Howard dros Ddiwygio'r Gyfundrefn Cosbi, 30 Hydref 2017. Ar gael o: <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2017/10/speech-pfd-children-across-the-justice-systems.pdf>

Munby, J. (2018). *What is family law? Securing social justice for children and young people* [darlith], Cyfres Darlithiau Cyhoeddus Cyfiawnder Cymdeithasol Eleanor Rathbone 2017-18, Prifysgol Lerpwl, 30 Mai 2018. Ar gael o: <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2018/05/speech-by-pfd-what-is-family-law.pdf>

Parker, C. a Tunnard, J. (2020). Six years on track: in and after care proceedings 2013–2019. Ar gael o: https://www.safeguardinglewisham.org.uk/assets/1/slcpp_6yot_final_report_july_2020.pdf

Preston, R. (2021). Ofsted urges DfE to distribute children's homes funding 'at pace' to tackle secure place shortage [ar-lein]. *Community Care*. Ar gael o: <https://www.communitycare.co.uk/2021/07/20/ofsted-urges-dfe-distribute-childrens-homes-funding-pace-tackle-secure-place-shortage/>

Roe, A., Alrouh, B., a Cusworth, L. (2021). *Plant hŷn a phobl ifanc mewn achosion gofal yng Nghymru a Lloegr*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Roe, A., Ryan, M., a Rehill, J. (2021). *Why are older children and young people in care proceedings? A case file review.* Summary. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Spencer, C., Griffin, B., a Floyd, M. (2019). *Vulnerable adolescents thematic review.* Bwrdd Diogelu Plant Croydon. Ar gael o: <https://croydonlcsb.org.uk/wp-content/uploads/2019/02/CSCB-Vulnerable-Adolescent-Thematic-Review-PUBLISHED-Feb-2019.pdf>

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent. (2019). *Deall y sbardunau. Y gydberthynas rhwng bod yn agored i niwed, troseddoldeb a chamfanteisio ar blant.* Ar gael o: <https://www.gwent.pcc.police.uk/media/gzwnfopq/understanding-the-triggers-welsh.pdf>

Atodiad A: Ffurflen archwilio

Dyluniwyd yr offeryn archwilio (holiadur) i alluogi staff awdurdodau lleol a oedd yn gyfarwydd â'u systemau data eu hunain ac amgylchiadau'r plant a'r teuluoedd i drosglwyddo gwybodaeth yn syml o gofnodion gofal cymdeithasol electronig y plant.¹³

Ffigur A.1: Yr offeryn archwilio

Cwblhewch yr holiadur canlynol** gan ddefnyddio data wedi'i olrhain a chofnodion gofal cymdeithasol electronig ar gyfer pob plentyn 10 oed a hŷn a oedd yn destun achos gofal a gychwynwyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

** Mae'r cyfarwyddiadau, neu'r manau i deipio, mewn teip glas trwchus.

Dyluniwyd yr archwiliad i:

- (1) gynyddu dealltwriaeth o amgylchiadau plant hŷn mewn achosion,
- (2) amlygu'r rhesymau dros dderbyn i'r system ofal, gan gynnwys materion yn ymwneud â niwed a chamfanteisio y tu allan i'r teulu, a
- (3) dysgu mwy am y gorgyffyrddiad rhwng cyfiawnder teuluol, cyfiawnder ieuencid, ac amddifadu o ryddid.

13 Roedd y ffurflen yn sail i archwiliad cynharach, a ddisgrifir yn Parker a Tunnard 2020.

Rhif adnabod y plentyn: **xx** (e.e. 01, 02, 03 ac ati)

Rhywedd: Gwrywaidd neu Fenywaidd

Ethnigrwydd: **xxxxx**

Oedran ar ddechrau'r achos (10-17 oed): **xx** oed

Statws brodyr neu chwiorydd: (e.e. unig blentyn mewn achos, neu nodwch nifer unrhyw frodyr neu chwiorydd + oedran + rhif(au) adnabod os ydynt yn 10 oed neu'n hŷn) **xxxxx**

Dyddiad (Mis) a'r Gorchymyn a wnaed yn y gwrandawriad terfynol:
Gorchymyn xxxx ym mis xxx 2019/20

Nifer yr wythnosau yn yr achos: **xx**

Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol: **le neu Na**

A. CYN YR ACHOS	
1. Pam oedd yr awdurdod lleol wedi dechrau achos gofal ynglŷn â'r plentyn hwn? Rhowch X yn y golofn chwith ar gyfer pob un sy'n berthnasol	
Niwed sylweddol gwirioneddol i'r plentyn neu berygl niwed o'r fath yn y dyfodol o fewn y teulu:	
	- Corfforol
	- rhywiol
	- emosiynol gan gynnwys sgiliau magu plant gwael iawn e.e. perthnasoedd, cysondeb, trefn ddyddiol
	- esgeulustod gan gynnwys sgiliau magu plant gwael iawn – diffyg ffiniau
	- y gallu i fagu plant wedi'i gyfyngu gan iechyd meddwl gwael y naill riant neu'r llall neu'r ddau riant
	- y gallu i fagu plant wedi'i gyfyngu gan drawma blaenorol y naill riant neu'r llall neu'r ddau riant
	- y gallu i fagu plant wedi'i gyfyngu gan anawsterau dysgu'r naill riant neu'r llall neu'r ddau riant
	- y gallu i fagu plant wedi'i gyfyngu gan gamddefnyddio sylweddau gan y naill riant neu'r llall neu'r ddau riant
	- mater difrifol gyda brawd neu chwaer arall/brodyr neu chwiorydd eraill yn effeithio ar y gallu i fagu plant
	- rhiant neu rieni yn y carchar
	- rhiant neu rieni'n absennol
	- rhiant neu rieni wedi marw
	- cam-drin domestig
	- anableded y plentyn
	- problemau emosiynol a/neu ymddygiadol y plentyn
	- difrifoldeb ymddygiad y plentyn yn golygu bod y plentyn allan o reolaeth rhieni
Niwed sylweddol gwirioneddol i'r plentyn neu berygl niwed o'r fath yn y dyfodol y tu allan i'r teulu:	
	- camfanteisio troseddol gan gynnwys gangiau/linellau cyffuriau
	- camfanteisio'n rhywiol ar blant
	- plentyn allan o reolaeth rhieni
	- masnachu pobl
	- caethwasiaeth fodern
	- nid yw'r rhiant yn y Deyrnas Unedig
	- arall, e.e. radicaleiddio (nodwch)
<i>Crynodeb testun rhydd o'r rhesymau dros roi X wrth ymyl unrhyw un o'r uchod ("y stori y tu ôl i'r ystadegau"): xxxxx</i>	
<i>Crynodeb testun rhydd o gryfderau/ffactorau gwydnwch y plentyn a/neu'r teulu a amlygwyd xxxxx</i>	

2. Ar ba lefel oedd y plentyn yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant yn flaenorol?
Rhowch X wrth ymyl bob un sy'n berthnasol

<input type="checkbox"/>	Ddim yn hysbys cyn i'r mater fynd gerbron y llys
<input type="checkbox"/>	Atgyfeiriadau blaenorol ar lefel gwybodaeth/rhannu gwybodaeth
<input type="checkbox"/>	Atgyfeiriad ac asesiad wedi'u dilyn gan ddim gweithredu pellach (NFA)
<input type="checkbox"/>	Atgyfeiriad, asesiad ac atgyfeiriad i asiantaeth arall
<input type="checkbox"/>	Achos agored yn y gorffennol, neu'n fuan cyn yr achos – megis plentyn mewn angen (CIN)
<input type="checkbox"/>	Achos agored yn y gorffennol, neu'n fuan cyn yr achos – megis ar y gofrestr amddiffyn plant (CPR)
<input type="checkbox"/>	Plentyn a oedd yn derbyn gofal yn y gorffennol, neu'n fuan cyn yr achos
<input type="checkbox"/>	Cyfiawnder leuenctid yn gysylltiedig cyn yr achos
<input type="checkbox"/>	Lefel arall o ymwneud (esboniwch)
<input type="checkbox"/>	A ddefnyddiwyd Cynhadledd Grŵp Teulu? Os felly, esboniwch y diben a'r canlyniad
<input type="checkbox"/>	A wnaed gwaith cyn-achos ffurfiol (yn unol â chanllawiau'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO))? Os felly, rhowch ddisgrifiad
<input type="checkbox"/>	A oedd unrhyw elfen ryngwladol i'r achos? Os felly, nodwch ba wlad. Xxxxx

B. YN YSTOD YR ACHOS

3. Pa arwyddion posibl o fod yn agored i gamfanteisio y tu allan i'r teulu a nodwyd cyn yr achos neu a ddaeth yn fwy eglur yn ystod yr achos? Rhowch X wrth ymyl bob un sy'n berthnasol

<input type="checkbox"/>	- plentyn ar goll o gartref
<input type="checkbox"/>	- plentyn yn mynychu ardaloedd sy'n gysylltiedig â chamfanteisio
<input type="checkbox"/>	- plentyn yn defnyddio alcohol
<input type="checkbox"/>	- plentyn yn defnyddio cyffuriau Dosbarth B – canabis, amffetaminau, cetamin, arall
<input type="checkbox"/>	- plentyn yn defnyddio cyffuriau Dosbarth A – heroin, cocên, crac cocên, ecstasi, LSD, arall
<input type="checkbox"/>	- plentyn wedi'i arestio am droseddau honedig
<input type="checkbox"/>	- plentyn wedi'i euogfarnu o droseddau
<input type="checkbox"/>	- plentyn yn caffael eitemau neu arian
<input type="checkbox"/>	- plentyn yn defnyddio ffôn symudol yn amlach a/neu'n gyfrinachgar
<input type="checkbox"/>	- plentyn yn meddu ar sawl ffôn symudol
<input type="checkbox"/>	- plentyn yn newid ei rif ffôn symudol yn aml
<input type="checkbox"/>	- ddim yn mynd i'r ysgol Prif ffrwd <input type="checkbox"/> Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) <input type="checkbox"/> Darpariaeth amgen <input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>	- mynd ar goll o'r ysgol

	- dirywiad sylweddol mewn perfformiad yn yr ysgol Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHCP) <input type="checkbox"/>
	- gwaharddiad cyfnod byr o'r Ysgol gynradd <input type="checkbox"/> Ysgol uwchradd <input type="checkbox"/>
	- gwaharddiad parhaol o'r Ysgol gynradd <input type="checkbox"/> Ysgol uwchradd <input type="checkbox"/>
	- arwahanu oddi wrth gyfoedion gan gynnwys targed bwlio <input type="checkbox"/> cyflawni bwlio <input type="checkbox"/>
	- cysylltu â chyfoedion sy'n achosi perygl niwed
	- heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
	- beichiogrwydd
	- dioddef ymosodiad corfforol
	- dioddef ymosodiad rhywiol
	- colli pwysau
	- newidiadau i hylendid personol
	- arwyddion blinder
	- newid sylweddol i les emosiynol
	- trais yn erbyn rhieni
	- colli rheolaeth rhieni, gan gynnwys perthnasoedd gwael/toredig â rhieni/teulu
	- trawma heb ei datrys, gan gynnwys profedigaeth
	- arall (esboniwch)
	<i>Crynodeb testun rhydd o'r rhesymau dros roi X wrth ymyl unrhyw un o'r uchod ("y stori y tu ôl i'r ystadegau"):</i> <i>xxxxx</i> <i>Crynodeb testun rhydd o unrhyw gryfderau/ffactorau gwydnwch y plentyn a/neu'r teulu a amlygwyd:</i> <i>xxxxx</i>
4.	A fu unrhyw ddull neu ymyrraeth arbennig e.e. ymwneud agos â'r teulu, perthnasau, y gymuned i fynd i'r afael â niwed y tu allan i'r teulu lle y'i hamlygwyd? Gallai hyn gynnwys mapio, allgymorth, mentrau amlasiantaethol, gwasanaeth arbenigol, a phrosiectau i fynd i'r afael ag anfantais neu wahaniaethu. Os felly, rhowch ddisgrifiad
5.	A fu unrhyw ymwneud gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, e.e. ysgrifennu adroddiad cyn-dedfryd, dedfrydau'r Llys Ieuenctid fel Gorchymyn Gwneud Iawn, Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid (safonol, uwch, dwys), Gorchymyn Adferol, Gorchymyn Cadw a Hyfforddi, a chadw am gyfnod tymor hir? Os felly, rhowch ddisgrifiad
6.	A wnaed unrhyw gais am Orchymyn Llety Diogel? Os felly, rhowch ddisgrifiad
7.	Os nad oedd lle mewn llety diogel ar gael neu'n briodol, a wnaed cais am gymeradwyaeth y llys i osod y plentyn mewn lleoliad amgen? Os felly, disgrifiwch y lleoliad amgen a nodwch a oedd yn anghofrestredig.
8.	A fu unrhyw dderbyniadau i gyfleusterau cleifion mewnol seiciatrig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl – yn anffurfiol neu o dan Adran? Os felly, rhowch ddisgrifiad
9.	Os yw'r plentyn dros 16 oed, a fu unrhyw gais i'r Llys Amddiffyn am amddifadu o ryddid o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019? Os felly, rhowch ddisgrifiad

C. AR ÔL YR ACHOS	
10.	Os oedd y plentyn wedi aros gyda'i riant/rhieni/wedi cael ei ddychwelyd i'w riant/rhieni yn 2019/20 o dan drefniant Dim Gorchymyn, Gorchymyn Trefniadau Plant (CAO) a/ neu Orchymyn Goruchwylio (SO), a yw'r plentyn yn parhau i fod gyda'i riant/rhieni, yn unol â'r Cynllun Gofal? Os na, pam? A yw'r plentyn wedi bod yn destun achos arall yn y Llys Teulu neu'r Llys Ieuencid? Os felly, beth oedd y canlyniad a phryd?
11.	Os oedd y plentyn yn destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO) gydag SO neu hebddo yn 2019/20, a oes gan y plentyn SG o hyd? Os na, pam? A yw'r plentyn wedi bod yn destun achos arall yn y Llys Teulu neu'r Llys Ieuencid? Os felly, beth oedd y canlyniad a phryd?
12.	Os daeth y plentyn yn destun Gorchymyn Gofal (CO) yn 2019/20, a yw'r plentyn wedi aros yn y lleoliad a gynigiwyd yn y Cynllun Gofal y cytunwyd arno mewn gwrandawriad terfynol e.e. gofal maeth tymor hir, gofal maeth gan berthynas, lleoli gyda rhiant, preswyl cofrestredig, lleoliad anghofrestredig, trefniadau gadael gofal? Nodwch ba fath neu esboniwch os yw'n wahanol
13.	Sawl gwaith mae'r lleoliad wedi newid ers y CO? Nodwch a oedd wedi'i gynllunio (yn unol â'r cynllun gofal e.e. symud i faethu tymor hir?) Neu heb ei gynllunio (tarfu ac ati?)
14.	A yw'r trefniadau cysylltu y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Gofal wedi cael eu cynnal? Os na, pam? A ddychwelodd y mater i'r llys ac, os felly, pryd, pam (wedi'i gychwyn gan yr awdurdod lleol neu'r teulu) a beth oedd y canlyniad?
15.	A gafodd y plentyn hwn ei wahanu oddi wrth frodyr neu chwiorydd gan y Cynllun Gofal neu a yw wedi cael ei wahanu wedi hynny? Nodwch sut. Os felly, pa drefniadau cyswllt a wnaed/a gynhaliwyd â'i frodyr neu chwiorydd?
16.	Sylwadau eraill? Pa Orchymyn bynnag a wnaeth y llys ar ddiwedd yr achos, beth allwch chi ei gasglu o'r cofnodion/unrhyw adolygiad (gan gynnwys e.e. ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal) ynglŷn â sut mae pethau'n datblygu i'r plentyn a'r teulu? Meddyliwch am berthnasoedd â'r teulu a chyfoedion, lleoliadau, yr ysgol, iechyd, lles, ymddygiad, a chysylltiad â'r teulu. Rhowch unrhyw safbwynt gan y plentyn neu'r teulu sy'n amlwg o adolygiadau xxxxx
17.	Sylwadau eraill? Gan ddefnyddio ôl-ddoethineb, beth ellid bod wedi'i wneud yn wahanol i atal lefel o ymyrraeth ym mywyd y teulu? Rhowch sylwadau ar unrhyw beth sy'n ddefnyddiol/anghenion nad ydynt wedi derbyn sylw o hyd xxxxx

Atodiad B:

Methodoleg

Ymatebodd yr awdurdodau lleol a gymerodd ran yn gadarnhaol i gais gan Ymchwil mewn Ymarfer i ymuno â'r prosiect. Fe'u gwahoddwyd oherwydd ein bod eisiau gwasgariad daeryddol o ardaloedd, a phartneriaid awdurdod lleol â diddordeb brwd mewn archwilio'r cwestiynau ymchwil. Gwnaethom lunio'r ffurflen archwilio, ei phrofi gyda rheolwyr ac archwilwyr o ran y cynnwys a'r iaith, a chynghori'r archwilwyr fel y bo'r angen drwy gydol eu gwaith. Wrth ddadansoddi, fe wnaethom ddarllen pob ffurflen archwilio, coladu'r data, a chlystyru'r canfyddiadau ansoddol yn unol â chwestiynau'r archwiliad. Cynhaliwyd cyfarfodydd dilynol ag archwilwyr a rheolwyr i gael adborth ar y broses a'n dadansoddiad drafft o'u canfyddiadau i ddatrys unrhyw ymholiadau neu anghysondebau a oedd yn weddill, a chael gwybod mwy am wasanaethau presennol a datblygiadau newydd.

Cafodd pob awdurdod lleol adroddiad ar eu harchwiliad; dogfen fewnol ydoedd i'w defnyddio fel yr oeddent yn dymuno. Roedd yn cynnwys ein dadansoddiad manwl o'u data ac ysgrif bortread a luniwyd gennym o bob plentyn. Cytunodd yr awdurdodau lleol i'w canfyddiadau gael eu cyfuno'n adroddiad terfynol cyfanredol dienw.

Trwy roi adroddiad ar wahân ar eu gwaith i bob awdurdod lleol, roeddem yn gallu:

- cynnig **dadansoddiad annibynnol** iddynt o'r ymatebion i'r archwiliad, gan roi darlun lleol o blant hŷn mewn achosion diweddar – y rhesymau, y pryderon a'r risgiau, yn ogystal â phenderfyniadau'r llys a chynlluniau gofal
- ystyried gyda nhw fanteision **olrhain a dadansoddi achosion dros amser** i adnabod newidiadau, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a materion parhaus
- adrodd ar y dystiolaeth am eu **defnydd o FGCs a'u heffeithiolrwydd**, i helpu i wneud/cadarnhau'r achos lleol dros ddarparu adnoddau ar gyfer y model hwn
- adnabod unrhyw waith diogelu cyd-destunol gyda **phlant mewn angen a phlant mewn gofal** i gael dealltwriaeth well o sut yr ymatebwyd i fod yn agored i niwed y tu allan i'r teulu cyn ac ar ôl achosion

- **myfyrio gyda'r archwilwyr ac arweinwyr ymarfer** (pennaeth gwasanaeth, prif weithiwr cymdeithasol, rheolwr achosion, rheolwr ymarfer) ar ganfyddiadau'r archwiliad, rhai calonogol a siomedig
- trafod eu canfyddiadau yng nghyd-destun materion yr adroddwyd arnynt **yn genedlaethol ac yn lleol**, fel achosion ailadroddol, gorchmynion goruchwyllo, a defnyddio dulliau newydd i geisio atal a dargyfeirio oddi wrth y llys.¹⁴

Roedd trafod adroddiad yr awdurdod lleol ar ffurf ddrafft yn rhoi cyfle i fyfyrion ar y cyd a gwella'r cywirdeb er mwyn cynhyrchu'r dadansoddiad cyfansawdd. Pan oedd cysondeb o ran archwilydd, dywedodd fod y drafodaeth yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol er mwyn cymryd 'cam yn ôl' ac edrych ar themâu cyffredinol yn ogystal â meddwl am beth oedd wedi digwydd i blant unigol.

Mewn un awdurdod (awdurdod lleol B), roedd gwaith blaenorol a wnaed i olrhain achosion dros amser wedi ein galluogi i lunio adroddiad ychwanegol ar gyfer y prosiect hwn. Dadansoddiad eilaidd oedd hwn o blant hŷn a fu'n destun achos chwe blynedd yn gynharach. Trwy hyn, cawsom rywfaint o ddealltwriaeth o dueddiadau dros gyfnod hwy na'r uchafswm o ddwy flynedd a oedd yn bosibl ar gyfer y garfan o blant yn yr ymarfer archwilio presennol.

14 I gael gwybodaeth gynhwysfawr am ymchwil ac ymarfer gan y Gymuned Ymarfer ar-lein ar gyfer gwasanaethau mewn perthynas â dysgu o achosion gofal ailadroddol a cheisio'u hosgoi, gweler: <https://supportingparents.researchinpractice.org.uk/services/>

Atodiad C:

Tablau data

Tabl C.1: Nifer y plant yn ôl oedran ar adeg cychwyn yr achos

Awdurdod lleol	Oedran								Cyfanswm
	10	11	12	13	14	15	16	17	
A	2	1	4	2	1	2	1	-	13
B	2	9	1	5	6	2	2	-	27
C	3	1	5	4	2	2	1	1	19
Ch	1	5	2	3	-	2	1	-	14
Cyffredinol	8	16	12	14	9	8	5	1	73
Cyffredinol (%)	11%	22%	16%	19%	12%	11%	7%	1%	

Tabl C.2: Nifer/cyfran y plant yn ôl ystod oedran

	10-13 oed		14-16 oed		17 oed	
	n	%	n	%	N	%
A	9	69%	4	31%	0	0%
B	17	63%	10	37%	0	0%
C	13	68%	5	26%	1	5%
Ch	11	79%	3	21%	0	0%
Cyffredinol	50	68%	22	30%	1	1%

Pam mae plant hŷn mewn achosion gofal? Archwiliad ar sail thema mewn pedwar awdurdod lleol.

Tabl C.3: Ethnigrwydd cyffredinol yn ôl plentyn a theulu

Ethnigrwydd	Plant	Teuluoedd
Du Prydeinig	5	4
Du Prydeinig Caribïaidd	5	3
Du Prydeinig Affricanaidd	5	4
Gwyn Prydeinig	34	23
Cymry Gwyn	3	2
Gwyn Ewropeaidd Sbaenaidd	1	1
Gwyn Ewropeaidd Twrcaidd	2	1
Gwyn Prydeinig a Roma	1	1
Gwyn Gwyddelig a Groegaidd	3	1
Tras ddeuol: Gwyn Prydeinig a Du Caribïaidd	3	2
Tras ddeuol: Gwyn Ewropeaidd a Du Caribïaidd	1	1
Tras ddeuol: Gwyn Prydeinig a Du Affricanaidd	1	1
Tras ddeuol: Gwyn Prydeinig ac Asiaidd	1	1
Arall: Gogledd-Affricanaidd	5	2
Arall: Heb ei nodi	3	2
Cyfanswm	73	49

Sylwer: mae'r dosbarthiadau wedi'u seilio ar y rhai a ddefnyddiwyd gan yr awdurdodau lleol (wedi'u haddasu o gate-gorïau grwpiau ethnig y Cyfrifiad).

Tabl C.4: Ymwneud gan wasanaethau plant cyn yr achos presennol

Awdurdod lleol	An.	Gwyb.	CIN	CP	CLA	PLO1	Llys1	FGC	PLO2	Cyfanswm nifer y teuluoedd
A	3	1	1	3	3	2	2	1	-	9
B	1	1	4	17	10	6	8	8	5	19
C	2	2	7	10	5	2	3	11	6	12
Ch	3	1	1	3	3	2	2	1	-	9
Cyfanswm	9	5	13	33	21	12	15	21	11	49

Nodiadau: An = Anhysbys; Gwyb. = Rhannu gwybodaeth ar adeg asesiad; CIN = Plentyn mewn angen; CP = Cynllun amddiffyn plant; CLA = Plentyn sy'n derbyn gofal; PLO1 = Amlinelliad cyfraith gyhoeddus - cyfnod cyntaf cyn-achos; Llys 1 = Achos gofal cyntaf cyn yr achos presennol; PLO2 = Amlinelliad cyfraith gyhoeddus - ail gyfnod cyn-achos.

Tabl C.5: Y plant mewn achosion ailadroddol

Achos cyntaf				Ail achos 2019/20		
ALI/ plentyn	Iwyddyn	Oed	Gorchymynion blaenorol	Natur y cyfraniadau rhwng achosion	Oed	Gorchymynion / cynlluniau
A1	2007/8	1	Gorchymyn gofal, gorchymyn lleoli	Gwaith cymdeithasol fel plentyn mewn gofal, wedi'i osod ar gyfer ei fabwysiadu, yna tarfu ar y lleoliad	13	Gorchymyn gofal, yna'i leoli mewn llety diogel
A5	2008	1	SGO (rhiant-cu)	Niferus, i geisio atal tarfu	12	Gorchymyn gofal a maethu tymor hir
B1	2018	9	Gorchymyn preswyllo (tad)	Maethu preifat / rheoliad 24, FGC	11	Gorchymyn gofal a maethu tymor hir, gyda seibiant rheolaidd wedi'i ddarparu gan berthynas
B3	2016	12	Gorchymyn goruchwyllo (mam)	Plentyn mewn angen, FGC, cam-drin domestig	16	Gorchymyn goruchwyllo (mam)
B4		10				
B5	2010	1	Gorchymyn preswyllo (tad)	lechyd meddwl, plentyn mewn angen, cynllun amddiffyn plant, achos cyfraith breifat	10	Symudodd y teulu i awdurdod lleol arall a throsoglwyddwyd yr achos yn y gwrandawriad cyntaf
B11	2012	7	SGO (rhiant-cu)	Cynllun amddiffyn plant, asesiadau magu plant, cyfarfodydd teulu	15	Lleoli mewn llety diogel, yna'n lled-annibynnol
B12		6			14	
B13	2010	3	Gorchymyn goruchwyllo (mam)	Cynllun amddiffyn plant, amlinelliad cyfraith gyhoeddus ac asesiad arbenigol, EHCP, FDAC	12	Gorchymyn goruchwyllo (mam)
B14		2		a.20/rheoliad 24 i'r fam-gu, asesiad arbenigol, EHCP, FDAC	11	Gorchymyn gofal a maethu gan berthynas (mam-gu)
B20	2017	8	Gorchymyn goruchwyllo (mam)	Plentyn mewn angen, cynllun amddiffyn plant, modryb o ochr y fam yn ofalwr blaenorol	11	SGO (perthynas)
B21	2012	8	Gorchymyn goruchwyllo (mam)	Plentyn mewn angen, cynllun amddiffyn plant, EHCP mewn awdurdod lleol arall	15	Mae'r achos yn parhau ac yn debygol o arwain at ddarpariaeth breswyl ar wahân
B22		6				
C2	2017	8	SGO (rhiant-cu)	Amlinelliad cyfraith gyhoeddus, ymyriadau amrywiol, FGC	10	Gorchymyn gofal a maethu tymor hir
C4	2017	8	Gorchymyn goruchwyllo (mam)	FGC, amryw ymyriadau a grwpiau	10	Gorchymyn gofal a maethu tymor hir
C12	2016	10	Gorchymyn goruchwyllo (mam)	Teulu wedi gwrthod FGC ac ymyrraeth	14	Gorchymyn gofal a lleoli mewn cartref preswyl. Mewn llety diogel ar hyn o bryd.
Ch9	Heb ei roi		SGO (rhiant-cu)	Plentyn mewn angen, cynllun amddiffyn plant	13	Gorchymyn gofal a maethu tymor hir
Ch10	2019	11	Gorchymyn goruchwyllo (mam)	Plentyn mewn angen, cynllun amddiffyn plant, gwaith 1:1 gan gyfiawnder ieuencid ynglŷn â phryderon camfanteisio troseddol	12	Gorchymyn gofal a maethu tymor hir (yn aros am leoliad newydd yn Mockingbird Hub)
Ch11	2019	10	Gorchymyn goruchwyllo (mam)	Ymestyn gorchymyn goruchwyllo	11	Gorchymyn gofal a darpariaeth breswyl

Crynodeb: Roedd 19 o blant 10+ oed (o 15 o deuluoedd) mewn achosion ailadroddol

Pam mae plant hyn mewn achosion gofal? Archwiliad ar sail thema mewn pedwar awdurdod lleol.

Tabl C.6: Y rhesymau a'r materion a oedd yn effeithio ar y gallu i fagu plant, a natur y pryderon a oedd yn effeithio ar y plant

	Awdurdod lleol				Cyfanswm
	A	B	C	Ch	
Natur y rhesymau fesul teulu					
Corfforol	4	10	6	1	21
Rhywiol	1	2	2	-	5
Emosiynol	9	19	12	9	49
Esgeulustod	6	14	11	7	38
Cam-drin domestig	3	7	9	5	24
Materion sy'n effeithio ar y gallu i fagu plant					
Iechyd meddwl	1	6	4	6	17
Trawma	2	9	6	4	21
Anawsterau dysgu	-	1	1	-	2
Cyffuriau/alcohol	3	7	6	6	22
Absennol	4	1	5	2	12
Wedi marw	2	2	1	-	5
Elfen ryngwladol	2	5	-	-	7
Materion i blant					
Plentyn ag anabledau	1	2	3	-	6
Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol	2	6	8	2	18
Allan o reolaeth rhieni	2	5	3	1	11
Camfanteisio troseddol	-	5	5	-	10
Camfanteisio rhywiol	2	2	2	-	6
Masnachu pobl	1	1	-	-	2

Tabl C.7: Pryderon ynglŷn â'r gallu i fagu plant

Pryder ynglŷn â rhieni	Nifer y teuluoedd	% o'r holl deuluoedd
Camddefnyddio sylweddau	22	45
Profiad o drawma	21	43
Iechyd meddwl gwael	17	35
Absennol o gartref	12	24
Wedi marw	5	10
Anawsterau dysgu	2	4

Tabl C.8: Gorchmynion y llys yn ystod achosion ac yn y gwrandawriad terfynol

Unrhyw orchymyn / gorchmynion a wnaed	Awdurdod lleol				Cyfanswm
	A	B	C	D	
Tynnu'n ôl/trosglwyddo	-	2	-	-	2
Dim gorchymyn	-	-	1	-	1
Gorchymyn trefniadau plant	-	-	2	3	5
Gorchymyn trefniadau plant + gorchymyn goruchwyllo	1	-	2	-	3
Gorchymyn goruchwyllo	1	5	4	1	11
Gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig	1*	1	3	1	6
Gorchymyn gofal	10	16	7	5	38
Achos yn parhau	-	3	-	4	7
Cyfanswm	13	27	19	14	73
Gan gynnwys, o ran cyfyngu ar ryddid:					
Gorchymyn llety diogel	1	2	-	-	3
Amddifadu o ryddid trwy awdurdodaeth gynhenid yr uchel lys	-	2	-	-	2
Anfon i ysbyty seiciatrig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl	1	-	-	-	1
Derbyn yn wirfoddol i ysbyty seiciatrig	-	1	-	-	1
Cyfanswm	2	5	-	-	7

Sylwer: *Yn ogystal â gorchymyn goruchwyllo

Tabl C.9: Trefniadau byw ar gyfer y plant mewn gofal

Math o leoliad	Awdurdod lleol				Cyfanswm nifer y plant
	A	B	C	D	
Maethu gyda gofalwr sy'n berthynas neu ofalwr sy'n unigolyn cysylltiedig	-	5	1	-	6
Maethu	7	6	3	8	24
Preswyl	3	4	2	1	11
Lled-annibyniaeth	-	2	-	-	2
Diogel (presennol)	-	-	1	-	1
Amddifadu o ryddid wedi'i ganiatáu (presennol)	-	1	-	-	-
Cyfanswm (gorchmynion gofal ac ICOs)	10	18	7	9	44
Yr oeddent yn cynnwys, yn y gorffennol:					
Diogel neu amddifadu o ryddid	1	5	-	-	6
Derbyn i ysbyty seiciatrig	1	1	-	-	2
Cyfanswm	2	6	-	-	8

Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant trwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Gan ymdrin â chyfraith gyhoeddus a phreifat, mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn darparu gwaith dadansoddi ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llysoedd teulu.

Sefydlwyd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusennol annibynnol sy'n ceisio hybu lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny'n bennaf ym meysydd addysg, lles, a chyfiawnder. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-ariannwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biofoeseg Nuffield.

Ymchwil mewn Ymarfer

Mae Ymchwil mewn Ymarfer, a sefydlwyd ym 1996, yn gweithio gyda sefydliadau i'w galluogi i gael at dystiolaeth, ei deall a'i chymhwyso wrth weithio gyda phlant a theuluoedd, pobl ifanc ac oedolion. Mae rhwydwaith aelodau Ymchwil mewn Ymarfer yn cynnwys mwy na 200 o awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a phrifysgolion ledled Lloegr.



Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2021
100 St John St, Llundain EC1M 4EH Ff: 020 7631 0566
Elusen gofrestredig 206601
nuffieldfjo.org.uk | [@NuffieldFJO](https://twitter.com/NuffieldFJO)
www.nuffieldfoundation.org | [@NuffieldFound](https://twitter.com/NuffieldFound)